LLAWLYFR UNEDAU

# Dyfarniadau, tystysgrifau a Diplomâu mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (5546)

## Lefel 2 Llawlyfr unedau i ganolfannau

**Gorffennaf 2018 Fersiwn 3.7**

City & Guilds

# Dyfarniadau, Tystysgrifau a Diplomâu mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (5546)

## Lefel 2 Llawlyfr  unedau i ganolfannau

| Fersiwn a dyddiad | Newid manylion | Adran |
|---|---|---|
| 2 0 Awst 2014 | Unedau 518-521 wedi'u hychwanegu | **Unedau** |
| 2.2 Medi 2014 | Unedau 522 ac 523 wedi'u hychwanegu | **Unedau** |
| 3.0 Tachwedd 2014 | Unedau 524-526 wedi'u hychwanegu | **Unedau** |
| | Atodiadau 1, 2 a 3 wedi'u hychwanegu gan restru pa unedau lefel 2 sydd ar gael yng nghyfres cymwysterau Cyflogadwyedd | **Atodiad** |
| 3.2 Chwefror 2015 | Uned 406 wedi'i disodli gan uned 462 | **Cyflwyniad i'r llawlyfr Unedau hwn**<br>**Uned 506** Gwybodaeth gwahardd |
| 3.3 Mehefin 2015 | Uned 401 wedi'i symud o'r wybodaeth gwahardd a restrir yn yr uned | **Unedau** |
| | Uned 525 Gwybodaeth Gefnogol wedi'i diweddaru i ddileu maen prawf 3.2 | |
| 3.4 Medi 2015 | Gwybodaeth gwahardd wedi'i diweddaru am unedau 501, 504, 505, 519 | |
| 3.5 Medi 2016 | Teitl uned 520 wedi'i gywiro yn Atodiad 1 | **Atodiad 1** |
| 3.6 Hydref 2016 | Newidiadau i olwg yr unedau | **Trwy'r cyfan** |
| 3.7 Gorffennaf 2018 | Dilëwyd FfCCh | **Trwy'r cyfan** |




# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad i'r llawlyfr Unedau hwn | 4 |
| 2 | Unedau | 8 |
| Uned 501 | Cynllunio gyrfa a gwneud ceisiadau | 9 |
| Uned 502 | Sgiliau, rhinweddau ac agweddau effeithiol ar gyfer dysgu yn y gwaith | 13 |
| Uned 503 | Paratoi ar gyfer cyfweliad | 17 |
| Uned 504 | Cyfathrebu gyda phobl eraill yn y gweithle | 21 |
| Uned 505 | Prosiect yr ymgeisydd ar gyfer dysgu a gweithio | 24 |
| Uned 506 | Ymgeisio am swydd | 28 |
| Uned 507 | Gwella sgiliau a thechnegau ymarferol | 31 |
| Uned 508 | Cyflwyniad i ddilyniant gyrfa | 35 |
| Uned 509 | Cyflwyniad ddatblygiad proffesiynol parhaus | 37 |
| Uned 510 | Cyflwyniad i arweinyddiaeth | 39 |
| Uned 511 | Cyflwyniad i fanteision hyfforddi | 41 |
| Uned 512 | Cyflwyniad i fanteision mentora | 43 |
| Uned 513 | Cyflwyniad i egwyddorion sefydlu busnes | 45 |
| Uned 514 | Byw'n iach | 49 |
| Uned 515 | Archwilio  cydraddoldeb ac amrywiaeth | 52 |
| Uned 516 | Defnyddio offer a chyfarpar | 57 |
| Uned 517 | Rheoli amser yn y gweithle | 61 |
| Uned 518: | Rheoli cyllid personol | 64 |
| Uned 519 | Delio â heriau | 70 |
| Uned 520 | Rheoli eich Hun | 74 |
| Uned 521 | Cyflwyniad i ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang | 78 |
| Uned 522 | Sgiliau gweithio tîm | 82 |
| Uned 523 | Gwerthfawrogi cwsmeriaid | 88 |
| Uned 524 | Deall gwrthdaro yn y gweithle | 92 |
| Uned 525 | Ymwybyddiaeth o gyffuriau | 96 |
| Uned 526 | Ymwybyddiaeth o alcohol | 100 |
| Atodiad 1 | Unedau Lefel 2 ar gael yn 5546-01-02-03-04-05-06 | 104 |
| Atodiad 2 | Unedau Lefel 2 ar gael yn 5546-21-22-23-24-25 | 106 |
| Atodiad 3 | Unedau Lefel 2 ar gael yn 5546-31-32-33-34-35 | 107 |
| Atodiad 4 | Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol | 108 |

# 1 Cyflwyniad i'r llawlyfr Unedau hwn

Mae City & Guilds yn cynnig yr unedau Lefel 2 hyn fel unedau dewisol yn y cymwysterau canlynol:

| Teitl y cymhwyster | Rhif City & Guilds | Rhif Achredu Cymhwyster |
|---|---|---|
| **Dyfarniadau rhagarweiniol** | | |
| City & Guilds Dyfarniad Rhagarweiniol Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd | 5546-01 | 601/3631/5 |
| City & Guilds Dyfarniad Rhagarweiniol Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) | 5546-22 | 601/3662/5 |
| City & Guilds Dyfarniad Rhagarweiniol Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol | 5546-31 | 601/3639/X |
| **Dyfarniadau** | | |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Cyflogadwyedd | 5546-02 | 601/3632/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd – Paratoi ar gyfer Cyflogaeth | 5546-02 | 601/3632/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd – Llwyddo yn y Gwaith | 5546-02 | 601/3632/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Dull o fyw | 5546-02 | 601/3632/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd –Cynllunio ar gyfer Bywyd a Gwaith | 5546-02 | 601/3632/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Lleoliad Gwaith | 5546-02 | 601/3632/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Gwirfoddoli | 5546-02 | 601/3632/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd – Gweithio drosoch chi'ch Hun | 5546-02 | 601/3632/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Datblygiad personol | 5546-02 | 601/3632/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) | 5546-22 | 601/3663/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd – Paratoi ar gyfer Cyflogaeth - (Gogledd Iwerddon) | 5546-22 | 601/3663/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 Dyfarniad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Llwyddo yn y Gwaith (Gogledd Iwerddon) | 5546-22 | 601/3663/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd –Cynllunio ar gyfer Bywyd a Gwaith (Gogledd | 5546-22 | 601/3663/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Lleoliad Gwaith (Gogledd Iwerddon) | 5546-22 | 601/3663/7 |

| | | |
|---|---|---|
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Gwirfoddoli (Gogledd Iwerddon) | 5546-22 | 601/3663/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Gweithio drosoch chi'ch hun (Gogledd Iwerddon) | 5546-22 | 601/3663/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Datblygiad Personol (Gogledd Iwerddon) | 5546-22 | 601/3663/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol | 5546-32 | 601/3534/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Paratoi ar gyfer Cyflogaeth | 5546-32 | 601/3534/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Llwyddo yn y Gwaith | 5546-32 | 601/3534/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Dull o fyw | 5546-32 | 601/3534/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol – Cynollunio ar gyfer Bywyd a Gwaith | 5546-32 | 601/3534/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Lleoliad Gwaith | 5546-32 | 601/3534/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Gwirfoddoli | 5546-32 | 601/3534/7 |
| City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Datblygiad Personol | 5546-32 | 601/3534/7 |
| **Dyfarniadau Estynedig** | | |
| City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd | 5546-03 | 601/3630/3 |
| City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd | 5546-03 | 601/3633/9 |
| City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) | 5546-23 | 601/3659/5 |
| City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) | 5546-23 | 601/3664/9 |
| City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol | 5546-33 | 601/3724/1 |
| City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol | 5546-33 | 601/3637/6 |
| **Tystysgrifau** | | |
| City & Guilds Tystysgrif Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd | 5546-04 | 601/3643/1 |
| City & Guilds Tystysgrif Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd | 5546-04 | 601/3645/5 |
| City & Guilds Lefel 1 Dyfarniad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) | 5546-24 | 601/3660/1 |

| | | |
|---|---|---|
| City & Guilds Tystysgrif Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol | 5546-24 | 601/3665/0 |
| City & Guilds Tystysgrif Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol | 5546-34 | 601/3535/9 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) | 5546-34 | 601/3532/3 |

| | | |
|---|---|---|
| **Tystysgrifau estynedig** | | |
| City & Guilds Tystysgrif Estynedig Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd | 5546-05 | 601/3644/3 |
| City & Guilds Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd | 5546-05 | ~~601/3646/7~~ |
| City & Guilds Tystysgrif Estynedig Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) | 5546-25 | ~~601/3661/3~~ |
| City & Guilds Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) | 5546-25 | 601/3666/2 |
| City & Guilds Tystysgrif Estynedig Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol | 5546-35 | 601/3640/6 |
| City & Guilds Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol | 5546-35 | ~~601/3636/4~~ |
| **Diplomâu** | | |
| City & Guilds Diploma Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd | 5546-06 | 601/3559/1 |
| City & Guilds Diploma Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd | 5546-06 | 601/3560/8 |

Dylid darllen y llawlyfr unedau hwn ynghyd â'r Llawlyfr Cymwysterau Dyfarniadau, Tystysgrifau a Diplomâu mewn Cyflogadwyedd (5546) i Ganolfannau, sy'n cynnwys yr wybodaeth bwysig ganlynol:

- cyflwyniad i'r cymwysterau
- gofynion y Ganolfan
- strwythur y cymwysterau
- cynllunio a chyflwyno cyrsiau.

## Arweiniad i ganolfannau

Mae'r rhan fwyaf o'r unedau hefyd yn cynnwys arweiniad i gefnogi canolfannau. Mae'r arweiniad yn ymddangos yn yr adrannau canlynol:

- Diffiniad o ganlyniadau - caiff y canlyniadau dysgu eu diffinio lle bydd hyn yn ychwanegu gwerth.
- Esboniad o feini prawf ac enghreifftiau o dystiolaeth – caiff y meini prawf asesu eu hesbonio, a, lle maen nhw'n ychwanegu gwerth at yr arweiniad, caiff enghreifftiau o dystiolaeth eu darparu.
- Sut mae cyflwyno'r uned hon? – mae'r adran hon yn cynnig arweiniad ar sut gellir cyflwyno'r uned, gan gynnwys argymhellion ar adnoddau fel gwefannau.

## Cyfuniadau gwaharddedig

Mae unedau sy'n gorgyffwrdd yn sylweddol o ran cynnwys yn 'gyfuniadau gwaharddedig'. Gall dysgwyr gymryd unedau sy'n waharddedig a byddant yn ymddangos ar Gredydau Tystysgrif Uned y dysgwr (CUC), ond ni fydd y ddwy uned/yr holl unedau gwaharddedig yn cyfrif tuag at y credydau angenrheidiol ar gyfer cymhwyster.

Er enghraifft, mae ar ddysgwr sy'n cymryd Tystysgrif Mynediad 3 angen 15 credyd o ddewis o unedau dewisol. Mae Uned 306 Mynediad 3, Ymgeisio am swydd, wedi'i gwahardd gydag Uned 462 Lefel 1, Ymgeisio am swydd. Os yw'r dysgwyr yn cymryd y ddwy uned hyn byddant yn casglu 2 gredyd yn unig ohonynt tuag at eu cymhwyster.

Os yw canolfan am hawlio dwy (neu ragor) o unedau gwaharddedig i ddysgwr, cynghorir iddynt hawlio'r uned sy'n fwyaf angenrheidiol i'r rheolau cyfuno ar gyfer y cymhwyster ac yna aros tan iddynt dderbyn tystysgrif cyn hawlio'r uned(au) gwaharddedig eraill.

**Os yw canolfan yn hawlio dwy (neu ragor) o unedau gwaharddedig yr un pryd, ni chânt eu cydnabod ac felly nid ystyrir y bydd y dysgwr wedi ennill y cymhwyster.**



# 2 Unedau

## Strwythur Unedau

Mae gan bob un o'r unedau'r canlynol:

- Rhif cyfeirio City & Guilds
- Rhif achredu uned (RHAU)
- teitl
- lefel
- gwerth credydau
- oriau dysgu dan arweiniad
- nod yr uned
- gwybodaeth ar asesu
- canlyniadau dysgu sy'n cynnwys nifer o feini prawf asesu
- nodiadau canllaw.

# Uned 501 Cynllunio gyrfa a gwneud ceisiadau

| | |
|---|---|
| **RHAU:**A/600/6196 | |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:**20 | |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i allu dewis a gwneud cais am swydd, rhaglen hyfforddi neu gwrs addas. |
| **Asesiad:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546:<br>• **301** Mynediad 3 Cynllunio ar gyfer dilyniant<br>• **306** Mynediad 3 Ymgeisio am swydd<br>• **401** Lefel 1 Cynllunio ar gyfer dilyniant<br>• **405** Lefel 1 Cynllunio gyrfa a gwneud ceisiadau<br>• **462** Lefel 1 Ymgeisio am swydd<br>• **506** Lefel 2 Ymgeisio am swydd |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. gallu dewis llwybr gyrfa addas |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 ymchwilio i ddewisiadau gyrfa<br>1.2 amlinellu dau lwybr gyrfa<br>1.3 gwerthuso'r llwybrau gyrfa hyn<br>1.4 cytuno ar lwybr gyrfa addas. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. gallu dewis swydd, rhaglen hyfforddi neu gwrs addas. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 rhestru a defnyddio ffynonellau gwybodaeth am swyddi gwag, rhaglenni hyfforddi neu gyrsiau<br>2.2 dewis swydd wag, rhaglen hyfforddi neu gwrs addas<br>2.3 rhoi rhesymau am y dewis. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. cyfathrebu ei sgiliau ei hun, rhinweddau a phrofiad mewn perthynas â'r llwybr gyrfa a ddewiswyd |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 esbonio'r angen i'w 'g/werthu ei hun'<br>3.2 disgrifio ei sgiliau, rhinweddau, profiad a'i g/chymwysterau ei hun mewn perthynas â'r llwybr gyrfa a ddewiswyd<br>3.3 disgrifio ei g/chyraeddiadau ei hun sy'n berthnasol i swydd a ddewiswyd, rhaglen hyfforddi neu gwrs<br>3.4 paratoi curriculum vitae wedi'i ffocysu ar gyfer ei l/llwybr gyrfa a ddewiswyd. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>4. deall y broses ymgeisio |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>4.1 disgrifio sut caiff ymgeiswyr eu dewis ar gyfer cyfweliad am swydd, rhaglen hyfforddi neu gwrs<br>4.2 cyflawni cais ar gyfer swydd, rhaglen hyfforddi neu gwrs penodol<br>4.3 paratoi dogfennaeth i gefnogi cais. |

# Uned 501 Cynllunio gyrfa a gwneud ceisiadau

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Dylai dysgwyr gael eu hannog i ystyried beth maen nhw am ei gael gan swydd neu gyfle hyfforddi. Pa mor bell maen nhw'n fodlon teithio? A oes oriau neu shifftiau penodol maen nhw am eu cael neu na allant eu gwneud? A fyddai'n well ganddynt hyfforddi neu astudio wrth weithio neu a fyddai'n well ganddyn nhw ennill eu cymwysterau'n gyntaf? A fyddai'n well ganddynt weithio o dan do neu'r tu allan? Ydyn nhw am weithio gyda phobl?

Gellir trefnu ymweliadau â'r Gwasanaeth Cyngor Gyrfaoedd a/neu â chyflogwyr penodol, darparwyr hyfforddiant neu golegau. Gellir gwahodd siaradwyr allanol, fel pobl broffesiynol Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad (IAG), i siarad â dysgwyr a thrafod eu cynlluniau unigol. Gallai cyflogwyr gynnig golwg ar y broses ymgeisio.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r ymgeisydd **ymchwilio** i o leiaf ddau ddewis gyrfa e.e. cogydd, gwerthwr blodau.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r ymgeisydd **amlinellu** dau lwybr gyrfa. Gall fod gan y llwybrau hyn yr un nod (e.e. dau lwybr gwahanol i'r un swydd: astudio amser llawn neu lwybr NVQ) neu nodau gwahanol (dwy yrfa wahanol).

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r ymgeisydd **werthuso** 'r llwybrau gyrfa hyn i wneud dewis ar sail gwybodaeth.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r ymgeisydd **gytuno** ar lwybr gyrfa addas gyda pherson priodol e.e. tiwtor, goruchwyliwr, cynghorwr gyrfa.

Gall tystiolaeth ar gyfer 1.1 i 1.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd wedi'i lofnodi gan yr aseswr i gadarnhau cytundeb.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r ymgeisydd **restru** a **defnyddio** ffynonellau gwybodaeth am swyddi gwag, rhaglenni hyfforddi neu gyrsiau e.e. cyfryngau lleol a chanolfan swyddi.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddewis** swydd wag, rhaglen hyfforddi neu gwrs perthnasol i'r llwybr gyrfa a ddewiswyd.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r ymgeisydd **roi** rhesymau o blaid eu dewis. Er enghraifft, gall swydd ran amser gyfrannu at ddatblygiad sgiliau ymgeisydd.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 i 2.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r ymgeisydd esbonio'r angen i'w 'g/werthu ei hun' yn ystod proses ymgeisio.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r ymgeisydd ddisgrifio ei sgiliau, rhinweddau, profiad a'i g/chymwysterau ei hun a sut mae'r rhain yn perthyn i'r llwybr gyrfa a ddewiswyd. Gallai sgiliau gynnwys cyfathrebu yn effeithiol, rheoli amser, amldasgio, dilyn cyfarwyddiadau, gyrru. Gallai rhinweddau gynnwys bod yn onest, yn brydlon, yn gydwybodol, rhoi sylw i fanylion, bod yn gwrtais, gweithio'n galed.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r ymgeisydd ddisgrifio ei g/chyflawniadau ei hun sy'n berthnasol i'r swydd, rhaglen hyfforddi neu gwrs a ddewiswyd e.e. arwain tîm.

Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 i 3.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 3.4 mae angen i'r ymgeisydd baratoi curriculum vitae sy'n ffocysu ar ei lwybr gyrfa a ddewiswyd. Gall hyn gael ei deipio gan rywun arall. Dylai tystiolaeth ar gyfer 3.4 fod yn Curriculum Vitae (CV).

Ar gyfer maen prawf 4.1 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** sut caiff ymgeiswyr eu dewis am gyfweliad ar gyfer swydd, rhaglen hyfforddi neu gwrs. Gall hyn gynnwys manylebau swydd, meini prawf dymunol a hanfodol, ffurflenni cais, CVau, mathau o gyfweliad, rhestr fer. Gall tystiolaeth ar gyfer 4.1 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r ymgeisydd **gyflawni** cais ar gyfer swydd, rhaglen hyfforddi neu gwrs penodol. Gall tystiolaeth fod yn ffurflen neu lythyr cais wedi'u cwblhau neu, ar gyfer cais ar y ffôn, gall fod yn arsylwad aseswr neu'n recordiad sain.

Ar gyfer 4.3 mae angen i'r ymgeisydd **gynhyrchu** dogfennaeth berthnasol i gefnogi eu cais. Gallai tystiolaeth gynnwys enghreifftiau o waith, trwydded yrru, caniatâd i weithio.

# Uned 502 Sgiliau, rhinweddau ac agweddau effeithiol ar gyfer dysgu a gweithio

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | T/600/6195 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:** | 22 |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i allu dangos rhinweddau, agweddau ac ymddygiad cadarnhaol ar gyfer dysgu a gweithio, ac i gyfathrebu a gweithio'n effeithiol. |
| **Asesu** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546:<br>• **323** Lefel 1 Agweddau a gwerthoedd ar gyfer datblygiad personol<br>• **425** Lefel 2 Sgiliau effeithiol, |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. dangos amrywiaeth o rinweddau, agweddau, ac ymddygiad cadarnhaol ar gyfer dysgu a gweithio |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwyr yn gallu:<br>1.1 esbonio pwysigrwydd rhinweddau, agweddau ac ymddygiad cadarnhaol ar gyfer cyflogaeth<br>1.2 dangos yn gyson godau ymddygiad priodol<br>1.3 dangos ei h/addasrwydd a'i hyblygrwydd<br>1.4 dangos ei g/chymhelliad a'i f/brwdfrydedd<br>1.5 dangos ei h/ymrwymiad a'i b/phroffesiynoldeb<br>1.6 adfyfyrio ar ei rh/rinweddau, agweddau ac ymddygiad cadarnhaol ar gyfer dysgu a gweithio. |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. deall pam mae cyfathrebu effeithiol yn bwysig |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 esbonio pwysigrwydd cyfathrebu llafar a dieiriau effeithiol<br>2.2 dangos cyfathrebu wyneb yn wyneb effeithiol gyda chydweithwyr neu gwsmeriaid<br>2.3 dangos cyfathrebu effeithiol gyda chydweithwyr neu gwsmeriaid sy ddim yn bresennol<br>2.4 esbonio a thrafod syniadau gan ddefnyddio iaith dechnegol lle mae'n briodol<br>2.5 rhoi enghreifftiau o wahanol ffurfiau o gyfathrebu ysgrifenedig a phryd maen nhw'n cael eu defnyddio<br>2.6 disgrifio effaith bosibl defnydd amhriodol o wefannau cymdeithasol. |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. gweithio'n effeithiol. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 adnabod y tasgau y mae angen eu gwneud a'r terfynau amser<br>3.2 cynhyrchu cynllun ar gyfer y diwrnod gwaith<br>3.3 gweithio'n ddiogel gan ddilyn canllawiau iechyd a diogelwch<br>3.4 cyflawni tasgau neu brosiectau niferus<br>3.5 cyflawni tasgau yn ôl y safon ofynnol a therfynau amser<br>3.6 adfyfyrio ar ei g/waith ac adnabod ffyrdd o weithio'n fwy effeithiol |

# Uned 502 Sgiliau, rhinweddau ac agweddau effeithiol ar gyfer dysgu a gweithio

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** (ar lafar neu'n ysgrifenedig) bwysigrwydd ymddygiad cadarnhaol a phriodol e.e. gwisgo'n briodol gan gynnwys gwisgo Offer Amddiffyn Personol. (PPE). Gall tystiolaeth ar gyfer 1.1 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddangos yn gyson** godau priodol o ymddygiad dros gyfnod arwyddocaol o amser yng nghyd-destun hyd rhaglen astudio'r ymgeisydd. Os yw'r rhaglen yn para blwyddyn, yna gall cyfnod arwyddocaol o amser fod yn dymor olaf neu'r chwe wythnos olaf. Caiff codau ymddygiad fel arfer eu gosod gan y man dysgu neu weithio.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r ymgeisydd **ddangos** y gallu i addasu a bod yn hyblyg e.e. gallu ymateb yn briodol i amgylchiadau newidiol.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r ymgeisydd **ddangos** cymhelliad a brwdfrydedd e.e. gwirfoddoli ar gyfer tasgau, gan wneud awgrymiadau.

Ar gyfer 1.5 mae angen i'r ymgeisydd **ddangos** ymrwymiad a phroffesiynoldeb e.e. cwblhau tasgau er gwaethaf amgylchiadau anodd gan fod yn gwrtais i gwsmeriaid hyd yn oed os ydyn nhw'n anghwrtais, gwerthfawrogi cyfraniadau ei gilydd, parchu cyfrinachedd.

Gall tystiolaeth 1.2 i 1.5 fod yn ddatganiad tyst gan roi enghreifftiau penodol neu fod yn arsylwad aseswr.

Ar gyfer 1.6 mae angen i'r ymgeisydd **adfyfyrio** ar ei r/rhinweddau, agweddau ac ymddygiad cadarnhaol ei hun. Gallai hyn fod trwy hunan adolygiad neu adolygiad gyda thiwtor neu gyflogwr. Gall tystiolaeth ar gyfer 1.6 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** (ar lafar neu'n ysgrifenedig) bwysigrwydd a) cyfathrebu geiriol (e.e. cael ei glywed a'i ddeall) a b) cyfathrebu dieiriau effeithiol (e.e. cyswllt llygad mewn amgylchiadau priodol). Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddangos** cyfathrebu wyneb yn wyneb effeithiol gyda chydweithwyr neu gwsmeriaid. Gall hyn fod yn sefyllfa real neu efelychiannol. Gall tystiolaeth fod yn fideo neu'n ddatganiad tyst.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r ymgeisydd **ddangos** cyfathrebu effeithiol gyda chydweithwyr neu gwsmeriaid sydd ddim yn bresennol e.e. yn ysgrifenedig, trwy e-bost neu ar y ffôn.

Ar gyfer 2.4 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** a **thrafod** syniadau gan ddefnyddio iaith dechnegol lle mae'n briodol e.e. iaith yn perthyn i bwnc penodol neu faes galwedigaethol.

Gall tystiolaeth 2.2 i 2.4 fod yn ddatganiad tyst gan roi enghreifftiau penodol neu fod yn arsylwad aseswr.

Ar gyfer 2.5 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o ffurfiau gwahanol o gyfathrebu ysgrifenedig a phryd maent yn cael eu defnyddio e.e. llythyrau, adroddiadau, nodiadau. Gall tystiolaeth fod yn rhestr o enghreifftiau neu'n enghreifftiau gwirioneddol o'r ffurfiau hyn gydag anodi addas.

Ar gyfer 2.6 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** effaith bosibl defnydd amhriodol o wefannau cymdeithasol e.e. gall cyflogwyr gael gafael ar y gwefannau hyn a llunio barn a gaiff effaith andwyol ar gyflogaeth unigolyn. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r ymgeisydd **nodi**'r tasgau i'w gwneud a'r amserau terfyn. Mae angen i'r aseswr, goruchwyliwr neu gyflogwr roi i/ cytuno gyda'r dysgwr brosiect neu ddarn o waith sy'n cynnwys tasgau amrywiol. Y tasgau hyn y mae angen i'r dysgwr eu nodi yn 3.1 a chynllunio ar eu cyfer yn 3.2.

Ar gyfer 3.2 rhaid i'r ymgeisydd **gynhyrchu** cynllun ar gyfer y diwrnod gwaith. Byddai hyn yn dangos y tasgau a'r drefn i'w cwblhau. Gall y diwrnod gweithio fod yn ddiwrnod llawn, yn hanner diwrnod neu'n shifft, gan ddibynnu ar yr arfer gweithio.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r ymgeisydd **weithio'n ddiogel** gan ddilyn canllawiau iechyd a diogelwch h.y. dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch y sefydliad a defnyddio PPE os yw'n briodol.

Ar gyfer 3.4 mae angen i'r ymgeisydd **gyflawni** tasgau amrywiol neu brosiectau. Dylai hyn gael ei gysylltu â'r cynllun a gynhyrchwyd yn 3.2.

Ar gyfer 3.5 mae angen i'r ymgeisydd **gyflawni**'r tasgau yn unol â'r safonau a'r terfynau amser gofynnol. Gall y safonau gael eu gosod gan y sefydliad a gall y terfynau amser gael eu gosod gan yr aseswr, goruchwyliwr neu ymgeisydd.

Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 i 3.5 gynnwys dyddiadur gwaith a datganiad tyst o arsylwadau aseswr.

Ar gyfer 3.6 mae angen i'r ymgeisydd **adfyfyrio** ar ei g/waith a nodi ffyrdd o weithio mwy effeithiol. Gallai hyn fod trwy hunan adolygiad neu adolygu gydag aseswr neu gyflogwr a dylai ddangos meysydd gwella. Gall tystiolaeth ar gyfer 3.6 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Gellid cwrdd â'r meini prawf trwy un neu ragor o weithgareddau yn y man dysgu neu weithio.

# Uned 503 Paratoi ar gyfer cyfweliad

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | D/506/2721 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 2 |
| **ODDA:** | 13 |
| **Nod:** | Bydd y dysgwyr yn deall sut i baratoi ar gyfer cyfweliad. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546:<br>**309** Mynediad 3 Paratoi ar gyfer cyfweliad a'i fynychu |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall y broses gyfweld |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 disgrifio'r pynciau a drafodwyd mewn cyfweliad<br>1.2 disgrifio gwahanol fathau o gyfweliad. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. gwybod ei sgiliau, rhinweddau, profiad a'i g/chymwysterau ei hun |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1. **asesu** ei **sgiliau, rhinweddau, profiad** a'i **g/chymwysterau** |

| **Cwmpas** |
|---|
| **2.1 asesu** - awdit personol , dadansoddiad SWOT, cwis ar-lein, trafodaeth gyda chydweithwyr, ffrindiau, teulu, goruchwyliwr, aseswr.<br>**2.1 sgiliau** – ymddygiad wedi'i ddysgu trwy gydol bywyd.<br>**2.1 rhinweddau** – priodweddau, tueddiadau personoliaeth.<br>**2.1 profiad** – gwaith, bywyd, personol.<br>**2.1 cymwysterau** – academaidd a/neu alwedigaethol. |

| Canlyniad Dysgu |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. gallu paratoi ar gyfer cyfweliad |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 disgrifio camau i'w cymryd cyn cyfweliad<br>3.2 rhoi enghreifftiau o gwestiynau a allai gael eu gofyn mewn cyfweliad<br>3.3 rhoi enghreifftiau o arfer cyfweliad effeithiol ac aneffeithiol<br>3.4 dangos paratoi ar gyfer cyfweliad |

# Uned 503 Paratoi ar gyfer cyfweliad

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio**'r pynciau a archwiliwyd mewn cyfweliad e.e. sgiliau, cymwysterau, y swydd, cynhyrchion/gwasanaethau'r cyflogwr, hanes gwaith, profiad, cymhelliad, diddordebau personol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** mathau o gyfweliad e.e. un i un, grŵp, panel, ffôn a Skype. Gallai'r broses gyfweld gynnwys prawf sgiliau, profi seicometrig, cyflwyniad, cwestiynau cymhwysedd/technegol, gweithgaredd ymarferol, gwaith tîm/sgiliau arweinyddiaeth. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **asesu** ei sgiliau ei hun, rhinweddau, profiad a chymwysterau e.e. sgiliau – siarad iaith arall, gyrru, sgiliau TG, rhinweddau – prydlon, gonest, dibynadwy, profiad – hanes swyddi, gwirfoddoli, gofalu am berthynas, cymwysterau – TGAU, Cymorth Cyntaf, Dyfarniad Arweinydd Chwaraeon Cymuned. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn dabl gwerthuso'ch hun.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** camau i'w cymryd cyn cyfweliad e.e. ymchwilio i fath busnes a lleoliad cyflogwr, edrych ar ddewisiadau cludiant ac amserlenni, ystyried dillad, paratoi cwestiynau i'w gofyn ac atebion i'r rhai allai gael eu gofyn, geirda, casglu dogfennau gofynnol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, gallai fod ar ffurf tabl, cofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o gwestiynau a allai gael eu gofyn mewn cyfweliad, e.e. cyfwelydd - argaeledd, sgiliau arweinyddiaeth, gwaith gwirfoddol, hyblygrwydd, llwybr gyrfa, cludiant, cyflawniad mwyaf, pam dylen ni eich cyflogi chi? Cyfwelai - dyddiad cychwyn, gwisg gwaith, lleoliad, oriau gwaith, rhagolygon gyrfa, hyfforddiant, gwyliau cymwysterau pellach, cyflog, cyfleusterau lluniaeth. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o arfer cyfweliad effeithiol ac aneffeithiol, e.e. effeithiol, - prydlon, cyflwyniad personol da, mynd â dogfennau priodol, gofyn cwestiynau perthnasol, iaith y corff dda, rhoi sylw, cwrtais, brwd, aneffeithiol - hwyr, diffyg canolbwyntio, anwaraidd, dadleugar, cynnal y corff yn wael, diffyg cyswllt llygad, ffôn symudol wedi'i adael ymlaen, anymwybodol o ofynion swydd, cyflwyniad gwael, anghofio dogfennau perthnasol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.4 rhaid i'r dysgwr **ddangos** cyflwyniad cyfweliad e.e. cyfweliad efelychiannol gyda chydweithiwr/ arsylwad aseswr/ adborth. Awgrymir bod dysgwyr yn dilyn y camau yn 3.1 i baratoi ar gyfer 3.4. Gall tystiolaeth gynnwys datganiad tyst, arsylwad aseswr a/neu fideo o gyfweliad efelychiannol.

Ar gyfer maen prawf 3.5 rhaid i'r dysgwr **werthuso** paratoad ar gyfer cyfweliad e.e. beth gafodd ei baratoi'n dda, beth oedd heb ei baratoi'n dda a beth gellid ei wneud yn wahanol yn y dyfodol. Awgrymir bod dysgwyr yn seilio'r gwerthusiad ar brofiad o'r cyfweliad efelychiannol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

# Uned 504 Cyfathrebu gyda phobl eraill yn y gweithle

| | |
|---|---|
| **RHAU:** R/506/2666 | |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 2 |
| **ODDA:**11 | |
| **Nod:** | Bydd y dysgwr yn gallu adnabod y ffordd fwyaf priodol o gyfathrebu o fewn y gweithle. |
| **Asesiad:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546:<br>• **304** Mynediad 3 Cyfathrebu effeithiol<br>• **322** Mynediad 3 Siarad effeithiol ar gyfer y gweithle<br>• **404** Lefel 1 Cyfathrebu effeithiol |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall ystyr cyfathrebu |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1. diffinio ystyr cyfathrebu<br>1.2 disgrifio gwahanol ddulliau o gyfathrebu. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2 deall y gwahaniaeth rhwng cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 rhoi enghreifftiau o gyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol<br>2.2 cymharu effeithiau cadarnhaol a negyddol gwahanol ddulliau o gyfathrebu. |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. gwybod y dulliau mwyaf priodol o gyfathrebu yn y gweithle |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 diffinio'r dulliau mwyaf priodol o gyfathrebu o fewn y gweithle<br>3.2 nodi manteision defnyddio'r dull mwyaf priodol ar gyfer cyfathrebu gydag eraill yn y gweithle. |

# Uned 504 Cyfathrebu gyda phobl eraill yn y gweithle

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** ystyr cyfathrebu e.e. cyfnewid/ cyfleu/ rhoi/ rhannu /trosglwyddo gwybodaeth. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** gwahanol ddulliau o gyfathrebu e.e. llafar, di-eiriau, ysgrifenedig. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o gyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol e.e. ffurfiol - cyflwyniad neu ddarn ysgrifenedig sy'n cadw'n gaeth at reolau a chonfensiynau sy'n rhydd o ymadroddion tafodieithol e.e. llythyr, adroddiad, cyflwyniad, anffurfiol - trafodaeth anffurfiol, cyfnewid llafar, nodyn neu e-bost a all gadw'n llai caeth at reolau neu gonfensiynau a gall ddefnyddio iaith fwy tafodieithol, e.e. nodyn, sgwrsio gyda ffrindiau, testun ffôn. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **gymharu** effeithiau cadarnhaol a negyddol gwahanol ddulliau o gyfathrebu e.e. cadarnhaol - llafar yn ymateb cyflym, yn gallu clywed tôn a thonyddiaeth, iaith corff ddieiriau, yn gallu gweld adweithiau pobl, gall ysgrifenedig fod wedi'i gynllunio, darparu llwybr papur ac yn gallu cyfeirio'n ôl at y ddogfen ysgrifenedig, negyddol - llafar heb lwybr papur, angen llai o amser meddwl a chynllunio, iaith corff ddieiriau, yn gallu gweld adweithiau pobl, ysgrifenedig, angen amser a meddwl. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, ar ffurf tabl.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio**'r dull mwyaf priodol o gyfathrebu o fewn y gweithle e.e. un i un, ffôn, llythyrau, cyfarfodydd, wyneb yn wyneb, galwad cynhadledd, Skype, Gweminarau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwyr **nodi** manteision defnyddio'r dull mwyaf priodol o gyfathrebu gyda phobl eraill yn y gweithle e.e. sensitifrwydd, cyfrinachedd, llwybr papur, eglurder, darllen iaith y corff, clywed tôn ac agwedd, annerch grwpiau bach neu fawr o bobl. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

# Uned 505 Prosiect yr ymgeisydd ar gyfer dysgu a gweithio

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | D/600/7793 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:** | 20 |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw cefnogi'r dysgwr wrth gynllunio, cynnal cyflwyno a gwerthuso prosiect (gweithgaredd neu ddarn o ymchwil) o'i d/ddewis ei hun. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546:<br>• **319** Mynediad 3 Prosiect yr ymgeisydd<br>• **418** Lefel 1 Prosiect yr ymgeisydd |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. cynllunio prosiect (gweithgaredd neu ddarn o ymchwil) |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 cytuno ar brosiect addas a nodi canlyniadau a ddymunir<br>1.2 rhestru'r camau sy'n rhan o'r prosiect<br>1.3 awgrymu graddfa amser ar gyfer y gweithgareddau<br>1.4 adnabod peryglon a risgiau posibl wrth gynnal y prosiect<br>1.5 cyflwyno'r cynllun i berson addas ar gyfer adborth<br>1.6 ymateb i adborth. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. cynnal prosiect |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1. dilyn cynllun y prosiect<br>2.2 adolygu cynnydd gyda pherson addas<br>2.3 newid cynllun y prosiect os oes angen<br>2.4 cwblhau'r prosiect. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. Cyflwyno prosiect. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 disgrifio proses<br>3.2 cyflwyno canlyniadau prosiect. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>4. gwerthuso prosiect |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>4.1 cael ac adfyfyrio ar adborth<br>4.2 esbonio beth aeth yn dda<br>4.3 esbonio beth nad aeth yn dda<br>4.4 disgrifio beth mae e/hi wedi'i ddysgu o gynllunio, cynnal a chyflwyno'r prosiect. |

# Uned 505 Prosiect yr ymgeisydd ar gyfer dysgu a gweithio

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr archwilio maes a all fod yn berthnasol i'w dysgu, gwaith a/neu ddiddordebau personol/hamdden. Gall y prosiect gymryd ffurf darn o ymchwil (e.e. hanes eu tref leol, ymchwilio i achau'r teulu) neu weithgaredd ymarferol (e.e. plannu gardd berlysiau, gwneud gwrthrych perthnasol i alwedigaeth). Gall prosiect gynnwys gweithgareddau ymchwil ac ymarferol e.e. ymchwilio i ofynion maethegol person sydd â chyflwr iechyd penodol a choginio pryd o fwyd addas iddyn nhw.

Bydd hyd a chwmpas y prosiect yn dibynnu ar yr amser a'r adnoddau sydd ar gael a dylai fod yn briodol i'r ymgeisydd.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r ymgeisydd **gytuno** ar brosiect addas (darn o ymchwil neu weithgaredd ymarferol) gyda'r aseswr neu oruchwyliwr a nodi'r canlyniadau a ddymunir.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r ymgeisydd **restru**'r camau sy'n rhan o'r prosiect.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r ymgeisydd **awgrymu** graddfa amser ar gyfer y gweithgareddau.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** peryglon a/neu risgiau posib wrth gynnal y prosiect e.e. peryglon a risgiau iechyd a diogelwch, risgiau'n ymwneud ag argaeledd amser, offer a defnyddiau ac ati.

Gall tystiolaeth ar gyfer 1.1 i 1.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 1.5 mae angen i'r ymgeisydd **gyflwyno**'r cynllun i berson addas ar gyfer adborth h.y. aseswr neu oruchwyliwr. Gall tystiolaeth ar gyfer 1.5 fod yn gynllun prosiect.

Ar gyfer 1.6 mae angen i'r ymgeisydd **ymateb** i adborth h.y. gan yr aseswr neu oruchwyliwr. Gall tystiolaeth ar gyfer 1.6 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r ymgeisydd **ddilyn** y cynllun prosiect. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad ymgeisydd, yn ffotograffau wedi'u hanodi, neu'n ddyddiadur ac arsylwad aseswr neu ddatganiad tyst.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **adolygu** cynnydd gyda pherson addas e.e. aseswr neu oruchwyliwr. Gall tystiolaeth fod yn gofnod adolygu ysgrifenedig.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r ymgeisydd **newid** y cynllun prosiect os oes angen. Gall hyn ddibynnu ar gynnydd neu argaeledd adnoddau. Dylai unrhyw newidiadau gael eu cytuno gyda'r aseswr. Gall tystiolaeth fod yn gynllun wedi'i anodi.

Ar gyfer 2.4 mae angen i'r ymgeisydd **gwblhau**'r prosiect. Gall tystiolaeth gynnwys canlyniad y prosiect (e.e. darn o ymchwil neu wrthrych wedi'i gwblhau), datganiad aseswr a/neu fideo, ffotograff neu recordiad sain.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio**'r broses o gynnal y prosiect e.e. gwahanol gamau, y mathau o ymchwil.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r ymgeisydd **gyflwyno** canlyniadau prosiect e.e. canlyniadau'r ymchwil. Gallai hyn fod yn gyflwyniad ffurfiol neu anffurfiol.

Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 a 3.2 fod yn ddyddiadur gwaith, yn gyflwyniad neu'n ddatganiad tyst.

Ar gyfer maen prawf 4.1 mae angen i'r ymgeisydd **gael** adborth ac **adfyfyrio** ar yr adborth sy wedi'i dderbyn. Gall yr adborth fod oddi wrth gydweithwyr, goruchwyliwr neu aseswr neu oddi wrth ffynonellau mewnol neu allanol priodol eraill. Gall tystiolaeth ar gyfer 4.1 fod yn adborth ysgrifenedig neu nodiadau wedi'u cymryd o drafodaeth fel tiwtorial a thystiolaeth o adfyfyrio yn eu cyfeiriad at hyn yn yr adroddiad ysgrifenedig ar gyfer 4.2 i 4.4.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** beth aeth yn dda wrth gynllunio, cynnal a/neu gyflwyno'r prosiect.

Ar gyfer 4.3 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** beth nad aeth yn dda wrth gynllunio, cynnal a/neu gyflwyno'r prosiect.

Ar gyfer 4.4 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** beth mae e/hi wedi'i ddysgu o gynllunio, cynnal a chyflwyno'r prosiect.

Gall tystiolaeth ar gyfer 4.2 i 4.4 fod yn adroddiad ysgrifenedig neu'n recordiad sain.

# Uned 506 Ymgeisio am swydd

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | J/506/2714 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 2 |
| **ODDA:** | 13 |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o sut caiff swyddi eu hysbysebu a gwybod pa sgiliau a rhinweddau mae cyflogwr yn chwilio |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546:<br>• **306** Mynediad 3 Ymgeisio am swydd<br>• **405** Lefel 1 Cynllunio gyrfa a gwneud ceisiadau<br>• **462** Lefel 1 Ymgeisio am swydd<br>• **501** Lefel 2 Cynllunio gyrfa a gwneud ceisiadau |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall gwahanol ffyrdd o wneud cais am swyddi |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1. disgrifio'r gwahanol ffyrdd o wneud cais am swyddi<br>1.2 disgrifio'r gwahanol fathau o geisiadau swydd. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. gallu cynhyrchu Curricula Vitae (CV) wedi'u targedu |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 amlinellu elfennau allweddol CV<br>2.2 cynhyrchu CVau darllenadwy wedi'u cynhyrchu'n glir ar gyfer **gwahanol ddibenion.** |

| **Cwmpas** |
|---|
| **2.2 gwahanol ddibenion -**damcaniaethol neu wedi'u ffocysu. |

| Canlyniad Dysgu |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. gallu ysgrifennu llythyr eglurhaol |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 disgrifio'r ystod o wybodaeth sy'n ofynnol mewn llythyr eglurhaol<br>3.2 esbonio pwysigrwydd llythyr eglurhaol |

| Cwmpas |
|---|
| **3.3 ffurfiol** – defnyddio strwythur ffurfiol ar gyfer cyfeiriadau'r derbynnydd a'r danfonwr, dyddiad, cyfarchiad, diwedd ac iaith ffurfiol. |

| Canlyniad Dysgu |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>4. gallu cwblhau ceisiadau swydd |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>4.1 asesu ei **sgiliau** a'i **b/phrofiad** ei hun sy'n berthnasol i'r manylebau swydd<br>4.2 cwblhau cais gan roi'r wybodaeth y gofynnir amdani<br>4.3 adolygu'r cais i sicrhau ei fod yn cwrdd â safonau gofynnol. |

| Cwmpas |
|---|
| **4.1 sgiliau** – ymddygiad wedi'i ddysgu trwy gydol bywyd<br>**4.1 profiad** – gwaith, bywyd, personol. |

# Uned 506 Ymgeisio am swydd

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr ddisgrifio'r gwahanol ffyrdd o wneud cais am swydd e.e. ffurflen gais (papur/ar-lein), e-bost, yn y cnawd, ffôn, Skype, llythyr, fideo. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio**'r gwahanol fathau o geisiadau swydd e.e. ffurflen gais swydd (papur/ar-lein), CV, llythyr eglurhaol, fideo. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** elfennau allweddol CV e.e. manylion personol, datganiad personol/ proffil, addysg, cymwysterau, profiad gwaith, gwybodaeth ychwanegol e.e. hobïau a diddordebau, geirda. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **gynhyrchu** CVau darllenadwy ac wedi'u strwythuro'n glir ar gyfer gwahanol ddibenion. Rhaid i'r dystiolaeth fod yn CV ysgrifenedig (gall gael ei ysgrifennu gan rywun arall).

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** ystod o wybodaeth sy'n ofynnol mewn llythyr eglurhaol e.e. manylion personol, rheswm dros ymgeisio/ddymuno cael y swydd, argaeledd am gyfweliad neu weithio, rhif ffôn cyswllt gorau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **esbonio** pwysigrwydd llythyr eglurhaol e.e. y cyfle i gyfateb i sgiliau, rhinweddau a phrofiadau i ofynion swydd, cyfle i 'werthu eich hun' a nodi pwyntiau gwerthu unigryw, dangos personoliaeth. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **gynhyrchu** llythyr eglurhaol ffurfiol. Rhaid i'r dystiolaeth fod yn ddatganiad/cynllun dysgwr ysgrifenedig (gall gael ei ysgrifennu gan rywun arall).

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr **asesu** ei sgiliau ei hun a phrofiad perthnasol i'r manylebau swydd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn dabl gwerthuso'ch hun.

Ar gyfer maen prawf 4.2 rhaid i'r dysgwr **gwblhau** ffurflen gais gan roi'r wybodaeth y gofynnir amdani. Rhaid i'r dystiolaeth fod yn ddatganiad/cynllun dysgwr ysgrifenedig (gall gael ei ysgrifennu gan rywun arall).

Ar gyfer maen prawf 4.3 rhaid i'r dysgwr **adolygu**'r cais i wneud yn siŵr ei fod yn cwrdd â safonau gofynnol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gais anodedig.

# Uned 507 Gwella sgiliau a thechnegau ymarferol

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | Y/506/2717 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:** | 19 |
| **Nod:** | Bydd y dysgwyr yn defnyddio sgiliau a thechnegau ymarferol i gynnal gweithgaredd a bydd yn adfyfyrio ar sut i wella'r rhain. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Dim |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. gallu cynllunio gweithgaredd a ddewiswyd |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 nodi gweithgaredd i'w gynnal<br>1.2 datblygu cynllun ar gyfer gweithgaredd gan roi manylion pob cam o'r broses/datblygiad.<br>1.3 dewis y defnyddiau a'r offer angenrheidiol ar gyfer pob cam o gynllun. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. gallu defnyddio sgiliau a thechnegau ymarferol ar gyfer y |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 disgrifio'r sgiliau a'r technegau y mae eu hangen i gynnal y gweithgaredd a ddewiswyd<br>2.2 defnyddio sgiliau a thechnegau i gynnal y gweithgaredd a ddewiswyd<br>2.3 disgrifio unrhyw broblemau a allai fod wedi digwydd ar bob cam<br>2.4 asesu beth gellid ei wneud i oresgyn unrhyw broblemau. |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. deall y gofynion iechyd a diogelwch i gynnal gweithgaredd a ddewiswyd |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 disgrifio arferion gweithio diogel<br>3.2 asesu risgiau a pheryglon<br>3.3 dangos arferion gweithio diogel. |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwr yn:<br>4. gallu adnabod meysydd ar gyfer datblygu a/neu wella |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>4.1 amlinellu sgiliau/technegau sy'n galw am ddatblygiad<br>4.2 amlinellu camau y mae eu hangen i well sgiliau/technegau. |

# Uned 507 Gwella sgiliau a thechnegau ymarferol

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** gweithgaredd i'w gynnal e.e. yn y gweithle, dosbarth, cartref, man dysgu. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddatblygu** gweithgaredd yn rhoi manylion pob cam o'r broses/datblygiad e.e. cynllun ysgrifenedig, trefn gweithredu, siart llif, diagram, map meddwl, map cysyniadol, datganiad dull. Gall tystiolaeth fod yn un o'r uchod neu'n ddatganiad llafar neu ysgrifenedig y dysgwr neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **ddethol** defnyddiau ac offer ar gyfer pob cam o'r cynllun e.e. penderfynu ar y math o ddefnyddiau ac offer y mae eu hangen, penderfynu ar symiau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio**'r sgiliau a'r technegau y mae eu hangen i gynnal gweithgaredd a ddewiswyd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **ddefnyddio**'r sgiliau a'r technegau i gynnal gweithgaredd a ddewiswyd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu lafar **gyda** chofnod aseswr, datganiad tyst gan berson priodol, fideo neu ffotograffau.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** unrhyw broblemau y gellid dod ar eu traws ar bob cam e.e. graddfeydd amser, prinder defnyddiau, defnyddiau amhriodol, offer anghywir, ymyriadau, diffyg gweithlu, prinder tanwydd, damwain, materion personol, salwch. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.4 rhaid i'r dysgwr **asesu** beth mae modd ei wneud i oresgyn unrhyw broblemau e.e. gwell cynllunio, gwirio defnyddiau ac offer, gwirio dulliau cyflenwi, ymarfer, gofyn am gymorth. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** arferion gweithio diogel e.e. defnyddio diffoddwyr tân, helmedau diogelwch, esgidiau capan dur, festiau llachar, harneisiau, gogls, troswisg/ffedog, menig, sicrhau awyru digonol, golau, arwyneb llawr gwastad, dilyn cyfarwyddiadau/ canllawiau diogelwch /polisïau a gweithdrefnau cwmni, troi peiriannau i ffwrdd pan na fyddan nhw'n cael eu defnyddio cadw bwyd a diod i ffwrdd o gyfrifiaduron a pheirianwaith. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **asesu** risgiau a pheryglon e.e. cwblhau asesiad risg, holiadur sgrinio cyn ymarfer (PAR-Q). Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **ddangos** arferion gweithio diogel pob un gweithgaredd a ymgymerwyd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu lafar **gyda** chofnod aseswr, datganiad tyst gan berson priodol, fideo neu ffotograffau.

Ar gyfer maen prawf 4.1 mae'n rhaid i'r dysgwr **amlinellu** sgiliau/technegau sy'n gofyn am ddatblygiad. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 4.2 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** camau angenrheidiol i well sgiliau/technegau e.e. cynllunio dilyniant, swm y defnyddiau, terfynau amser, offer ychwanegol/gwahanol, technegau a ddefnyddiwyd, offer diogelwch angenrheidiol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

# Uned 508 Cyflwyniad i ddilyniant gyrfa

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | D/506/2718 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 1 |
| **ODDA:** | 7 |
| **Nod:** | Bydd y dysgwr yn deall proses dilyniant gyrfa. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Dim |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. gallu cynllunio ar gyfer dilyniant gyrfa |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 nodi cyfleoedd ar gyfer dilyniant gyrfa<br>1.2 dod o hyd i **wahanol ffynonellau** o wybodaeth cysylltiedig â dilyniant gyrfa.<br>1.3 adolygu eu **sgiliau, rhinweddau** a'u **profiad** eu hunain<br>1.4 cynhyrchu cynllun dilyniant gyrfa. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **1.2 gwahanol ffynonellau -** o fewn y sefydliad ar radd uwch, symudiad gyrfa i sefydliad arall.<br>**1.3 sgiliau** – ymddygiad wedi'i ddysgu trwy gydol bywyd.<br>**1.3 rhinweddau** – priodweddau, tueddiadau personoliaeth.<br>**1.3 profiad** – gwaith, bywyd, personol. |

## Uned 508 Cyflwyniad i ddilyniant gyrfa

Gwybodaeth ategol

### Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** cyfleoedd ar gyfer dilyniant gyrfa e.e. cyrsiau hyfforddi, ennill cymwysterau ychwanegol, cymryd gwaith/rôl ychwanegol, cymryd rôl swydd wahanol ar yr un lefel i ennill profiad ehangach, symud i gwmni gwahanol ar yr un lefel gyda swydd wahanol ar gyfer profiad ehangach o fewn maes penodol neu symud i rôl swydd gwbl wahanol i symud gyrfa mewn cyfeiriad gwahanol, ymddeoliad gan berson uwch, safle newydd wedi'i greu. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddod o hyd** i wahanol ffynonellau o wybodaeth cysylltiedig â dilyniant gyrfa e.e. goruchwyliwr, adran Adnoddau Dynol, cydweithwyr, gwefan /hysbysfwrdd cwmni, teulu/ffrindiau, rheolwr, coleg/prifysgol, Canolfan Gwaith, sefydliadau hyfforddi, Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol, cylchgronau proffesiynol, llyfrgell. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **adolygu** eu sgiliau, eu rhinweddau a'u brofiadau eu hunain e.e. sgiliau cyfathrebu, plymio, hyblygrwydd, cynorthwyol, rhifedd, hyder, hunan-gymhelliad, datrys problemau, trin gwallt, arweinyddiaeth, sgiliau ymchwil, teyrngarwch, sgiliau negodi, gosod nodau, sgiliau creadigol, gonestrwydd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn dabl gwerthuso'ch hun.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr **gynhyrchu** cynllun dilyniant gyrfa e.e. dros gyfnod o amser, gyda dyddiadau, camau/cyfnodau gweithredu, cerrig milltir, adolygiadau cyson. Rhaid i'r dystiolaeth fod yn ddatganiad/cynllun dysgwr ysgrifenedig (gall gael ei ysgrifennu gan rywun arall).

# Uned 509 Cyflwyniad i ddatblygiad proffesiynol parhaus

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | A/506/2791 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 1 |
| **ODDA:**10 | |
| **Nod:** | Bydd y dysgwyr yn dod yn gyfarwydd â'r broses werthuso a DPP. |
| **Asesiad:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Dim |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall y broses werthuso |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1. disgrifio'r broses **werthuso**<br>1.2 asesu ei hun yn ôl perfformiad<br>1.3 adfyfyrio ar gryfderau a gwendidau personol<br>1.4 creu a datblygu cynllun i gefnogi gwella perfformiad. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **1.1 gwerthuso** – asesu/ barnu rhywun neu rywbeth. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. gallu nodi pwysigrwydd cadw sgiliau a gwybodaeth yn gyfredol |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 nodi sut i wella eu perfformiad trwy ddysgu<br>2.2 adnabod meysydd i'w datblygu<br>2.3 cynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer hunan-ddatblygiad<br>2.4 cadw cofnod o'u dysgu eu hunain. |

# Uned 509 Cyflwyniad i ddatblygiad proffesiynol parhaus

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio**'r broses arfarnu e.e. gwaith papur cyn cyfarfod, cyfarfod yn edrych ar faterion a phroblemau, unrhyw anghenion hyfforddi, arsylwadau, adborth a chynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **asesu** ei hun yn ôl perfformiad. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn dabl gwerthuso'ch hun.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **adfyfyrio** ar gryfderau a gwendidau personol.

Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu ar lafar (gall rhywun arall wneud yr ysgrifennu), yn gofnod aseswr, yn ddadansoddiad SWOT.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr **greu** cynllun datblygu i gefnogi gwella perfformiad e.e. gallai gynnwys dyddiadau, pobl, adnodd, gweithgareddau, camau a dyddiadau adolygu. Rhaid i'r dystiolaeth fod yn gofnod o gynllun datblygu (gall rhywun arall ei ysgrifennu).

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** sut i wella ei b/pherfformiad ei hun trwy ddysgu e.e. cwrs hyfforddi, cwrs gohebol, dosbarthiadau nos, cysgodi, arsylwi. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** meysydd ar gyfer datblygu, e.e. prydlondeb, sgiliau trefnu, profiad, cymwysterau, hyder, cyflwyniad, sgiliau TG, rheoli amser. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **gynhyrchu** cynllun gweithredu ar gyfer hunan-ddatblygiad e.e. gallai gynnwys dyddiadau, pobl, adnodd, gweithgareddau, camau, a dyddiadau adolygu.

Rhaid i'r dystiolaeth fod yn gynllun gweithredu ysgrifenedig (gall gael ei ysgrifennu gan rywun arall).

Ar gyfer maen prawf 2.4 rhaid i'r dysgwr **gadw** cofnod o'i ddysgu ei hun, e.e. dyddiadur log, llyfr nodiadau, ar y ffôn ac ati. Rhaid i'r dystiolaeth fod yn gofnod o'u dysgu eu hunain (gall rhywun arall ei ysgrifennu).

# Uned 510 Cyflwyniad i arweinyddiaeth

| | |
|---|---|
| **RHAU:**A/506/2712 | |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 1 |
| **ODDA:**7 | |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o egwyddorion sylfaenol arweinyddiaeth. |
| **Asesiad:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:**Dim | |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall prif arddulliau arweinyddiaeth |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1. disgrifio prif arddulliau arweinyddiaeth<br>1.2 rhoi enghreifftiau o sgiliau arweinyddiaeth<br>1.3 esbonio sut mae ei **sgiliau** a **rhinweddau** yn ymwneud â phrif nodweddion arweinyddiaeth. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **1.3 sgiliau** – ymddygiad wedi'i ddysgu trwy gydol bywyd.<br>**1.3 rhinweddau** – priodweddau, tueddiadau personoliaeth. |

# Uned 510 Cyflwyniad i arweinyddiaeth

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** prif arddulliau arweinyddiaeth e.e. awdurdodol/ awtocratig (llym, rheolaeth agos yn cael ei chadw dros bawb), tadol (ffigur tadol yn cymryd gofal o weithwyr a chael ymddiriedaeth a theyrngarwch yn gyfnewid), democratig /cymryd rhan (rhannu gwneud penderfyniadau), trafodol (cymell eraill trwy wobrau a chosbau), laissez faire (yr holl hawliau a phŵer i wneud penderfyniadau wedi'u rhoi i'r gweithiwr), trawsffurfiol (newid neu drawsnewid anghenion gweithwyr, herio ac ysbrydoli i ailgyfeirio eu meddwl). Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o sgiliau arweinyddiaeth e.e. trefniadaeth, cynllunio, rheoli risg, datrys problemau, rheoli amser, hunan-gymhelliad, dirprwyaeth, gwaith tîm, sgiliau cymell, sgiliau cyfathrebu, hyblygrwydd, gwneud penderfyniadau, gwrando. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **esbonio** sut mae ei sgiliau a'i rinweddau ei hun yn perthyn i brif nodweddion arweinyddiaeth, e.e. bod yn dda yn trefnu, cynllunio neu ddirprwyo a bod yn bendant, carismatig neu empathetig. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

# Uned 511 Cyflwyniad i fanteision hyfforddi

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | F/506/2713 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 1 |
| **ODDA:** | 7 |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o fanteision hyfforddi. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Dim |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall pwrpas a manteision hyfforddi |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 diffinio pwrpas hyfforddi<br>1.2 disgrifio sefyllfaoedd lle caiff hyfforddi ei ddefnyddio<br>1.3 disgrifio **manteision** hyfforddi. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **1.3 manteision** – i'r person sy'n cael ei hyfforddi a'r hyfforddwr. |

# Uned 511 Cyflwyniad i fanteision hyfforddi

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** pwrpas hyfforddi e.e. dysgu, hyfforddi neu gyfarwyddo. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** sefyllfaoedd pan gaiff hyfforddi ei ddefnyddio e.e. chwaraeon, canu, dawnsio (fel arfer gweithgareddau corfforol). Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **disgrifio** manteision hyfforddi e.e. dysgu sgiliau a thechnegau newydd, cymhelliad ac anogaeth, cadw'n gyfredol gyda datblygiadau newydd, estyn profiad, cadw'n ffit. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

# Uned 512 Cyflwyniad i fanteision mentora

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | H/506/2719 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 1 |
| **ODDA:** | 7 |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o fanteision mentora. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Dim |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall pwrpas a manteision hyfforddi |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 diffinio pwrpas mentora<br>1.2 disgrifio sefyllfaoedd lle caiff mentora ei ddefnyddio<br>1.3 disgrifio **manteision** mentora. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **1.3 manteision** – i'r person sy'n cael ei fentora a'r mentor. |

# Uned 512 Cyflwyniad i fanteision mentora

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** pwrpas mentora e.e. cynghori, arwain a chwnsela person neu bersonau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** sefyllfaoedd pan gaiff mentora ei ddefnyddio e.e. ysgol/coleg, profiad gwaith, swydd newydd, datblygu busnes newydd, chwaraeon, pobl ifanc/ teuluoedd mewn sefyllfaoedd anodd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** manteision e.e. estyn profiad, dysgu technegau a sgiliau newydd, osgoi camsyniadau, tynnu sylw at wallau, anogaeth a chymhelliad, lleihau straen a phryder i fentoreion, gwella dewisiadau bywyd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

# Uned 513 Cyflwyniad i egwyddorion sefydlu busnes

| | |
|---|---|
| **RHAU:** Y/506/2720 | |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:**18 | |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i egwyddorion sefydlu busnes. |
| **Asesiad:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:**Dim | |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall gwobrwyon a risgiau sefydlu busnes newydd |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 esbonio gwobrwyon potensial sefydlu busnes newydd<br>1.2 esbonio risgiau potensial sefydlu busnes newydd. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. gallu adnabod cynnyrch neu wasanaeth hyfyw i'w farchnata a'i werthu |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 disgrifio'r cynnyrch neu wasanaeth<br>2.2 rhoi rhesymau dros ddewis cynnyrch neu wasanaeth<br>2.3 disgrifio'r **farchnad darged** ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth<br>2.4 disgrifio'r prif gystadleuwyr<br>2.5 asesu'r ffactorau risg. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **2.3 marchnad darged** - grŵp o gwsmeriaid y mae busnes wedi penderfynu marchnata ei gynhyrchion neu wasanaethau iddynt. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. deall sut i gyllido busnes newydd |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 rhestru ffynonellau cyllid<br>3.2 gwerthuso ffyrdd o gyllido busnes newydd. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>4. gallu adnabod ffynonellau cyngor a chefnogaeth i fusnes |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>4.1 rhestru gwahanol ffynonellau cyngor a chefnogaeth<br>4.2 disgrifio cefnogaeth sydd ar gael yn lleol<br>4.3 disgrifio cefnogaeth sydd ar gael gan sefydliadau eraill. |

# Uned 513 Cyflwyniad i egwyddorion sefydlu busnes

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **esbonio** gwobrau potensial sefydlu busnes newydd e.e. hyblygrwydd oriau gwaith, posibilrwydd incwm uwch, rhyddid i weithio heb reolwr/goruchwyliwr, perchenogi busnes, cwrdd â chysylltiadau newydd, rhyddid creadigol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **esbonio** risgiau sefydlu busnes newydd e.e. cydbwysedd gwaith/bywyd gwael, colli arian, ddim yn cynhyrchu digon o incwm, straen, cyfrifoldeb ar ei ben ei hun amdano'i hun ac eraill o bosib, cystadleuaeth. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio**'r cynnyrch neu wasanaeth a ddewiswyd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **roi rhesymau** dros ddewis cynnyrch neu wasanaeth e.e. marchnad arbenigol, bwlch wedi'i nodi yn y farchnad, gallu i weithio o'r cartref, arbenigedd a gwybodaeth sy'n bod eisoes. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio**'r farchnad darged ar gyfer y cynnyrch neu wasanaeth. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.
Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 2.4 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio**'r prif gystadleuwyr. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 2.5 rhaid i'r dysgwr **asesu**'r ffactorau risg e.e. rhy ddrud i'w gynhyrchu neu farchnata, diffyg ymchwil i'r farchnad, dim digon o gyllid, gormod o gystadleuaeth, marchnata aneffeithiol, dod o hyd i weithwyr medrus.
Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, fformat tabl.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **restru** ffynonellau cyllid e.e. banc, teulu, ffrindiau, ei gynilion ei hun, cyflogwr blaenorol, grantiau lleol a chenedlaethol, nawdd.

Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **werthuso** ffyrdd o gyllido busnes newydd e.e. edrych ar fanteision ac anfanteision pob dull o gyllido. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, ar ffurf tabl.

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr **restru** gwahanol ffynonellau o gyngor a chefnogaeth e.e. Cyngor i Bawb (CAB), Siambr Fasnach leol, GOV.UK. Smallbusiness.co.uk, startupdonut, HMRC. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 4.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** cefnogaeth sydd ar gael yn lleol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 4.3 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** cefnogaeth sydd ar gael gan sefydliadau eraill. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

# Uned 514 Byw'n iach

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | R/506/2716 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 2 |
| **ODDA:** | 11 |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw annog y dysgwr i fabwysiadau a chynnal dull iach o fyw. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546:<br>• **312** Mynediad 3 Byw'n iach<br>• **412** Lefel 1 Cyfrannu at eu byw'n iach eu hunain |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall pwysigrwydd byw'n iach |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 disgrifio elfennau allweddol byw'n iach<br>1.2 disgrifio manteision byw'n iach<br>1.3 esbonio canlyniadau peidio â byw'n iach. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. gwybod am ffynonellau cefnogaeth i fyw'n iach |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 disgrifio **cefnogaeth** sydd ar gael. |

| **Cwmpas** |
|---|
| 2.1 **cefnogaeth -** cenedlaethol, lleol. |

| Canlyniad Dysgu |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. gallu dangos ymrwymiad i fyw'n iach |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 asesu eu byw eu hunain i adnabod meysydd gwella<br>3.2 dewis **nodau** i hybu eu byw'n iach eu hunain<br>3.3 cynhyrchu cynllun i wella eu byw'n iach<br>3.4 gweithredu cynllun byw'n iach<br>3.5 **adolygu** effeithiau eu byw'n iach eu hunain. |

| Cwmpas |
|---|
| **3.2 nodau** - tymor hir a thymor byr.<br>**3.5 adolygu** – asesu beth aeth yn dda a beth nad aeth gystal. |

# Uned 514 Byw'n iach

## Gwybodaeth ategol

### Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** elfennau allweddol byw'n iach e.e. gwneud dewisiadau cadarnhaol sy'n gwella iechyd personol, corfforol, meddyliol ac ysbrydol, ymarfer, lleihau straen, cael digon o gwsg, cyfyngu ar alcohol, osgoi cyffuriau anghyfreithlon. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** manteision byw'n iach e.e. disgwyliad bywyd hirach, osgoi llawer o glefydau/salwch, mwy o egni, esgyrn cryfach, lleihau effaith clefydau/salwch etifeddol, gwella ffrwythlondeb. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **esbonio** canlyniadau peidio â byw'n iach e.e. marwolaeth gynnar, mwy agored i glefyd/salwch, llai o egni, mwy o risg o osteoporosis, materion ffrwythlondeb, gordewdra, clefydau/salwch etifeddol yn fwy tebygol o gychwyn, diabetes Math 11. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** cefnogaeth sydd ar gael e.e. GIG, Wellspring Healthy Living Centre, Walk4life a sefydliadau lleol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **asesu** eu dull o fyw i adnabod meysydd gwella. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn dabl gwerthuso'ch hun.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **ddethol** nodau i hybu eu byw'n iach e.e. ymarfer mwy, bwyta llai, bwyta mwy o ffrwythau a llysiau, bwyta llai o gig coch, peidio ysmygu, lleihau alcohol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **gynhyrchu** cynllun i wella eu byw'n iach e.e. gallai gynnwys dyddiadau, pobl i gael cefnogaeth, adnoddau, pwyntiau gweithredu, camau i'w cymryd, dyddiadau ar gyfer adolygiad. Rhaid i'r dystiolaeth fod yn ddatganiad/cynllun dysgwr ysgrifenedig (gall gael ei ysgrifennu gan rywun arall).

Ar gyfer maen prawf 3.4 rhaid i'r dysgwr **weithredu** cynllun byw'n iach. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu lafar **gyda** chofnod aseswr, datganiad tyst gan berson priodol, fideo neu ffotograffau.

Ar gyfer maen prawf 3.5 rhaid i'r dysgwr **adolygu** effeithiau byw'n iach eu hunain e.e. gwirio i weld a yw camau a gweithgareddau wedi'u cwblhau a sut maen nhw wedi cyfrannu at fyw'n iach. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gynllun anodedig.

# Uned 515 Archwilio cydraddoldeb ac amrywiaeth

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | L/506/2715 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 2 |
| **ODDA:** | 12 |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr gyfle i archwilio a deall pwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546:<br>• **435** Lefel 1 Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• **436** Lefel 1 Archwilio cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• **437** Lefel 1 Deall iaith a diwylliant cymuned |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall ystyr cydraddoldeb |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 diffinio'r term cydraddoldeb<br>1.2 rhoi enghreifftiau o gydraddoldeb mewn perthynas â **chyflogaeth**<br>1.3 rhoi enghreifftiau o gydraddoldeb mewn perthynas ag **addysg**<br>1.4 rhoi enghreifftiau o gydraddoldeb mewn perthynas â **gofal iechyd**<br>1.5 rhoi enghreifftiau o gydraddoldeb mewn perthynas â **thai**<br>1.6 rhoi enghreifftiau o'r problemau mae **cymdeithas** yn gallu'u hwynebu yn sgil anghydraddoldeb. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **1.2 cyflogaeth** – gwaith tâl<br>**1.3 addysg** – , ysgol, coleg, man dysgu<br>**1.4 gofal iechyd** -meddygon, ysbytai, gofal cymunedol<br>**1.5 tai** - preifat, cyngor, cymdeithasau tai<br>**1.6 cymdeithas** - pobl yn byw ynghyd mewn cymuned, gwlad gyda deddfau a rheoliadau wedi'u rhannu |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. deall ystyr amrywiaeth |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 diffinio'r term 'amrywiaeth'<br>2.2 disgrifio'r amrywiaeth sy'n bodoli yn eu cymuned leol<br>2.3 disgrifio manteision amrywiaeth yn eu cymuned leol. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. deall stereoteipio a'i effeithiau |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 esbonio beth yw stereoteipio<br>3.2 rhoi enghreifftiau o ffactorau sy'n gallu arwain at stereoteipio<br>3.3 rhoi enghreifftiau o effeithiau stereoteipio |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>4. deall rhagfarn a gwahaniaethu a'u heffeithiau |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>4.1 esbonio beth yw rhagfarn<br>4.2 esbonio beth yw gwahaniaethu<br>4.3 rhoi enghreifftiau o sut mae pobl yn gallu datblygu rhagfarn a gwahaniaeth yn erbyn pobl eraill<br>4.4 rhoi enghreifftiau o effeithiau rhagfarn a gwahaniaethu. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>5. deall pam mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn bwysig |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>5.1 esbonio pwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>**5.2** rhoi enghreifftiau o **ddeddfwriaeth** gyfredol sy'n amddiffyn cydraddoldeb ac amrywiaeth. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **5.2 deddfwriaeth** - deddfau. |

# Uned 515 Archwilio cydraddoldeb ac amrywiaeth

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio**'r term cydraddoldeb e.e. sicrhau bod unigolion neu grwpiau'n cael eu trin yn deg ac yn gydradd a heb fod yn llai ffafriol, yn benodol i'w hanghenion, gan gynnwys meysydd hil, rhywedd, anabledd, crefydd neu gred, cyfeiriant rhywiol ac oed. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o gydraddoldeb mewn perthynas â chyflogaeth e.e. rhoi rhai o ddyletswyddau person anabl i berson arall i leihau llwyth gwaith, newid oriau rhywun i gymryd egwyl pan fydd angen, caniatáu gweithio hyblyg, cael neu newid offer, rhoi mynediad i'r anabl i bob rhan o'r adeilad, caniatáu amser a chyfleusterau ar gyfer addoliad grefyddol, rhoi amrywiaeth o fwydydd yn y ffreutur. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o gydraddoldeb mewn perthynas ag addysg e.e. darllenydd, ysgrifennydd neu ladmerydd, caniatáu defnyddio technoleg gynorthwyol, caniatáu amser a chyfleusterau ar gyfer addoliad crefyddol, rhoi amrywiaeth o fwydydd adeg bwyd, mynediad i'r anabl i bob rhan o'r safle. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o gydraddoldeb mewn perthynas â gofal iechyd e.e. darparu mynediad i'r anabl i bob rhan o'r safle, darparu arwyddion braille, darparu amrywiaeth o fannau addoli i'r rhai ag angen, darparu staff meddygol o rywedd penodol i'r rhai sydd â chredoau crefyddol sydd yn gofyn am hyn, darparu bwydydd traws-ddiwylliannol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 1.5 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o gydraddoldeb mewn perthynas â thai, e.e. rhoi tai mewn mannau penodol, rhoi tai llawr daear, sicrhau bod mynediad i'r anabl yn ei le (lifftiau'n gweithio), dim gwahaniaethu wrth neilltuo tai. Mae dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol bod darparwyr tai'n rhoi 'ystyriaeth ddyladwy' i'r angen i waredu gwahaniaeth, hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a hybu perthynas dda. Mae Deddf Lleoleiddio 2011 yn rhoi i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai fwy o hyblygrwydd i wneud y defnydd gorau o'u tai i gwrdd ag anghenion amrywiol a newidiol eu cymunedau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 1.6 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o broblemau y gall cymdeithas eu hwynebu yn sgil anghydraddoldeb e.e. problemau iechyd, aflonyddwch cymdeithasol a throsedd, diffyg addysg, getoau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** 'r term amrywiaeth e.e. cydnabod, gwerthfawrogi a pharchu gwahanol gefndir pobl, gwybodaeth, sgiliau anghenion a phrofiadau ac annog a defnyddio'r gwahaniaethau hyn i greu cymuned gydlynus a gweithlu effeithiol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio**'r amrywiaeth sy'n bodoli o fewn eu cymuned leol eu hunain e.e. tir sydd ar gael ar gyfer amrywiaeth o adeiladau crefyddol, gwybodaeth o wahanol grefyddau sy'n cael eu dysgu mewn ysgolion, cadw at amrywiaeth o wyliau crefyddol, goddef gwisg grefyddol, gwyliau amlddiwylliannol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **disgrifio** manteision amrywiaeth yn eu cymuned leol e.e. pawb yn teimlo wedi'i werthfawrogi a'i barchu, yn gallu cymryd mantais o amrywiaeth enfawr o brofiad a gwybodaeth fel y celfyddydau, cerddoriaeth, bwydydd, yn rhoi neges i bobl ifanc bod amrywiaeth yn bwysig. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **esbonio** beth yw stereoteipio e.e. barnu grŵp o bobl sy'n wahanol i chi ar sail eich barnau chi a/neu bobl eraill a/neu brofiad. Gall hyn arwain at ragfarn a gwahaniaethu. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o'r ffactorau sy'n gallu arwain at stereoteipio e.e. ofni'r anwybod, ofni pobl sy'n 'wahanol', diffyg dealltwriaeth o ddiwylliannau, crefyddau, anableddau, dewisiadau rhywedd ac ati, y cyfryngau, diffyg profiad personol, teulu a ffrindiau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o effeithiau stereoteipiau, e.e. tanseilio hunan-barch, achosi niwed emosiynol, achosi ofn a materion seicolegol eraill, ynysu, diffyg cyfleoedd, cyffredinoli annheg. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, cofnod amser, map meddwl.

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr **esbonio** beth yw rhagfarn e.e. barn anffafriol neu deimlad wedi'i ffurfio o flaen llaw neu heb wybodaeth, meddwl neu reswm. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 4.2 rhaid i'r dysgwr **esbonio** beth yw gwahaniaethu e.e. triniaeth anghyfiawn neu annheg o bobl, yn enwedig oherwydd eu hil, rhyw neu oed.

Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 4.3 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o sut mae pobl yn gallu datblygu rhagfarn a gwahaniaethu yn erbyn pobl eraill e.e. dylanwad ffrindiau, teulu, y cyfryngau, eu profiadau eu hunain yn peri iddyn nhw ddatblygu rhagfarn a thrin pobl eraill yn annheg. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 4.4 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o effeithiau rhagfarn a gwahaniaethu e.e. tyndra cymdeithasol ac emosiynol, ofn, pryder, gelyniaeth, trais, tanseilio hunan-barch, niweidio hyder, gwneud i bobl deimlo'n annerbyniol ac yn annheilwng, tynnu allan yn gymdeithasol, problemau iechyd, aflonyddwch cymdeithasol a throsedd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 5.1 rhaid i'r dysgwr **esbonio** pwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth e.e. parch a thegwch i bawb beth bynnag yw'r gwahaniaethau i sicrhau nad oes neb yn teimlo o dan anfantais ac wedi'u gwahaniaethu. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 5.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o ddeddfwriaeth gyfredol sy'n amddiffyn cydraddoldeb ac amrywiaeth e.e., Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Cydraddoldeb 2010 *(yn cyfun' Ddeddf Tâl Gyfartal 1970; Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975, Deddf Cysylltiadau Hil 1976, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003, Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriant Rhywiol) 2003, Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oed) 2006, Deddf Cydraddoldeb 2006, Rhan 2, Deddf Cydraddoldeb (Cyfeiriant Rhywiol) Rheoliadau 2007).* Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

# Uned 516 Defnyddio offer a chyfarpar

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | T/506/2790 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 1 |
| **ODDA:** | 10 |
| **Nod:** | Bydd y dysgwr yn gwybod sut i ofalu am offer a chyfarpar a'u defnyddio'n ddiogel ar gyfer defnydd ymarferol. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Dim |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. gallu cynnal amrywiaeth o offer a/neu gyfarpar |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 disgrifio'r **cynnal** angenrheidiol ar gyfer amrywiaeth o offer a/neu gyfarpar<br>1.2 disgrifio rhagofalon diogelwch perthnasol i **gynnal** amrywiaeth o offer a/neu gyfarpar<br>1.3 gweithredu'r **cynnal** priodol o amrywiaeth o offer a/neu gyfarpar. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **1.1, 1.2 & 1.3 cynnal** – cadw rhywbeth mewn trefn weithio. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. gallu defnyddio amrywiaeth o offer a chyfarpar |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 adnabod yr offer a/neu gyfarpar i'w defnyddio<br>2.2 disgrifio pwrpas yr offer a/neu gyfarpar<br>2.3 amlinellu'r rhagofalon diogelwch cysylltiedig â'r offer a/neu gyfarpar<br>2.4 dewis a defnyddio offer a chyfarpar i gwblhau gweithgaredd y cytunwyd arno mewn dull diogel. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. gallu storio amrywiaeth o offer a chyfarpar |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 dangos sut i wneud offer a chyfarpar yn ddiogel<br>3.2 dangos sut i storio offer a chyfarpar yn ddiogel. |

# Uned 516 Defnyddio offer a chyfarpar
Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio**'r cynnal angenrheidiol ar gyfer amrywiaeth o offer a/neu gyfarpar e.e. hogi, glanhau, gwirio perfformiad, olew, gwirio bod pob darn yn bresennol a gwefru. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio**'r rhagofalon diogelwch perthnasol i gynnal amrywiaeth o offer a/neu gyfarpar e.e. gwirio bod gardiau/ cloriau diogelwch a/neu gyfarpar yn bresennol, dadblygio ceblau trydan, defnyddio deunyddiau glanhau cywir, storio diogel, offer amddiffyn personol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **berfformio** cynnal priodol amrywiaeth o offer a/neu gyfarpar. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr **gyda** chofnod aseswr, datganiad tyst gan berson priodol, fideo neu ffotograffau.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **nodi**'r offer a/neu'r cyfarpar i'w defnyddio. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** pwrpas yr offer a/neu gyfarpar e.e. torri, melino, peintio, drilio, coginio, llyfnhau, palu. Dysgwyr i roi disgrifiad o'r pwrpas ac nid atebion un gair. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **amlinellu**'r rhagofalon diogelwch gyda'r offer a/neu gyfarpar a ddewiswyd e.e. esgidiau capiau dur, fisor diogelwch, hetiau caled, gogls, menig, trafod â llaw, dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 2.4 rhaid i'r dysgwr **ddethol a defnyddio** offer a chyfarpar i gwblhau gweithgaredd a gytunwyd mewn dull diogel e.e. cyllyll, turnau, driliau, offer cegin, siswrn, brwsh paent. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu lafar **gyda** chofnod aseswr, datganiad tyst gan berson priodol, fideo neu ffotograffau.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **ddangos** sut i wneud offer a chyfarpar yn ddiogel e.e. defnyddio storio a phacio priodol, troi cyfarpar i ffwrdd, darllen cyfarwyddiadau ar gyfer storio. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu lafar **gyda** chofnod aseswr, datganiad tyst gan berson priodol, fideo neu ffotograffau.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **ddangos** sut i storio offer a chyfarpar yn ddiogel e.e. defnyddio pacio/cynwysyddion priodol, darllen cyfarwyddiadau ar gyfer storio, cadw allan o gyrraedd plant, cadw'n sych, cadw'n rhydd o lwch. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ysgrifenedig neu lafar **gyda** chofnod aseswr, datganiad tyst gan berson priodol, fideo neu ffotograffau.

# Uned 517 Rheoli amser yn y gweithle

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | F/506/2663 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 1 |
| **ODDA:** | 8 |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i adnabod ffyrdd o reoli amser a chynllunio ac adolygu ei reolaeth |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Dim |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall pwysigrwydd rheoli amser. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 rhoi diffiniad o reoli amser<br>1.2. disgrifio pwysigrwydd rheoli amser.<br>1.3 disgrifio ffyrdd o reoli amser yn effeithiol<br>1.4 disgrifio ffactorau sy'n gallu **effeithio** ar reoli amser. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **1.4 ardrawiad/dylanwad** - effaith gref. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. deall y technegau sy'n gallu cael eu defnyddio i reoli amser |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1. disgrifio technegau sy'n gallu cael eu defnyddio i reoli amser<br>2.2 adnabod manteision technegau rheoli amser. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. gallu defnyddio technegau rheoli amser |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 asesu ei sgiliau rheoli amser ei hun<br>3.2 cynhyrchu cynllun i wella sgiliau rheoli amser<br>3.3 adolygu ei sgiliau rheoli amser ei hun. |

# Uned 517 Rheoli amser yn y gweithle

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **roi diffiniad** o reoli amser e.e. y gallu i ddefnyddio'i amser ei hun yn effeithiol neu'n gynhyrchiol, yn enwedig yn y gweithle.

Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** pwysigrwydd rheoli amser e.e. cwblhau tasgau yn yr amser sydd ar gael. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** ffyrdd o reoli amser yn effeithiol e.e. cynllunio blaen llaw, dirprwyo, dyddiadur, cynllun gweithredu. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** ffactorau sy'n gallu dylanwadu ar reoli amser e.e. teulu, ymrwymiadau personol, salwch, gwaith ychwanegol/annisgwyl, offer yn torri/methu, absenoldeb cydweithwyr, gwyliau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** technegau sy'n gallu cael eu defnyddio i reoli amser, e.e. dyddiadur, log, nodiadau atgoffa ar y ffôn, rhybuddion, amserlen, cofnod o feddyliau, gwneud rhestri, cynllunio, Cynorthwyydd Dyddiadur personol ar gyfrifiadur (PDA). Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** manteision technegau rheoli amser e.e. cyflawni pob un dasg o fewn graddfeydd amser, creu gwell cydbwysedd gwaith/bywyd, llai o straen, mwy cynhyrchiol, colli cyfarfodydd /apwyntiadau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **asesu** ei sgiliau rheoli amser ei hun. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, neu yn gofnod aseswr, yn dabl barnu'ch hun.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **gynhyrchu** cynllun i wella sgiliau rheoli amser e.e. gallai gynnwys dyddiadau, pobl, adnoddau, gweithgareddau, cam a dyddiad adolygu.

Rhaid i'r dystiolaeth fod yn gynllun dysgwr ysgrifenedig (gall gael ei ysgrifennu gan rywun arall).

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **adolygu** ei sgiliau rheoli amser ei hun e.e. gwirio i weld ydy'r camau a'r gweithgareddau wedi'u cwblhau ac a yw eu sgiliau rheoli amser eu hunain wedi gwella. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, (gall gael ei ysgrifennu gan rywun arall) neu'n gynllun anodedig.

# Uned 518: Rheoli cyllid personol

| | |
|---|---|
| **RHAU:** R/600/7791 | |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:**26 | |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddeall sut i reoli eu cyllid personol. |
| **Asesiad:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546:<br>• **302** Mynediad 3 Cyllid personol<br>• **402** Lefel 1 Rheoli cyllid personol |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall ffynonellau incwm a gwariant |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 rhoi enghreifftiau o ffynonellau incwm wedi'i hennill a heb ei ennill<br>1.2 disgrifio budd-daliadau gwladwriaeth taladwy mewn gwahanol sefyllfaoedd<br>1.3 rhoi enghreifftiau o amrywiaeth o wariant perthynol i'r gwaith a heb fod yn berthynol i'r gwaith |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. deall slipiau talu a mantolenni banc |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 esbonio termau allwedd ar slip tâl<br>2.2 esbonio'r didyniadau ar slip tâl gan gynnwys treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol<br>2.3 esbonio termau allweddol ar fantolen banc |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. deall yr angen i reoli incwm a gwariant |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 cynllunio a chofnodi incwm a gwariant ar gyfer cyfnod penodol, gan nodi unrhyw warged/diffyg<br>3.2 nodi pam byddai cronfa wrth gefn yn ddefnyddiol<br>3.3 adnabod y problemau sy'n gallu digwydd os bydd gwariant yn fwy nag incwm<br>3.4 nodi manteision posibl rheoli cyllid personol yn effeithiol |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwr yn:<br>4. gwybod sut i leihau dyled |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>4.1 disgrifio ffyrdd o leihau gwariant personol a/neu gynhyrchu incwm<br>4.2 rhestru ffynonellau o gefnogaeth i broblemau dyled difrifol<br>4.3 diffinio methdaliad |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwr yn:<br>5. deall ystod o gynhyrchion a gwasanaethau ariannol |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>5.1 rhoi enghreifftiau o fathau o gynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan fanciau a chymdeithasau adeiladu<br>5.2 nodi manteision ac anfanteision gwahanol fathau o gyfrifon<br>5.3 dewis cyfrif addas gan roi rhesymau o blaid y dewis<br>5.4 amlinellu rhai o'r risgiau a'r gwobrau sy'n perthyn i gyfranddaliadau a mathau eraill o fuddsoddi |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>6. deall manteision ac anfanteision cynilo arian |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>6.1 disgrifio manteision cynilo i unigolyn neu deulu<br>6.2 disgrifio anfanteision cynilo i unigolyn neu deulu<br>6.3 rhoi enghreifftiau o wobrau ariannol gwahanol fathau o gynilo |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>7. deall manteision ac anfanteision benthyca arian |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>7.1 disgrifio manteision benthyca i unigolyn neu deulu<br>7.2 disgrifio anfanteision benthyca i unigolyn neu deulu<br>7.3 rhoi enghreifftiau o gostau ariannol benthyca tymor byr<br>7.4 rhoi enghreifftiau o gostau ariannol benthyca tymor hir |

# Uned 518: Rheoli cyllid personol

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer y maen prawf cyntaf 1.1) mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o ffynonellau o incwm wedi'i ennill a heb ei ennill, e.e. budd-daliadau, lwfansau. Mae hyn am incwm yn gyffredinol nad yw'n incwm y dysgwr ei hun.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** budd-daliadau gwladol mewn sefyllfaoedd gwahanol e.e. pensiynau, budd-dâl plant, Lwfans Ceisiwr Swydd.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o ystod o wariant cysylltiedig â gwaith e.e. teithio i'r gwaith, dillad gwaith a gwariant heb fod yn gysylltiedig â gwaith, e.e. rhent, ffôn, dillad, tanwydd, bwyd, adloniant.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** manteision ac anfanteision gwahanol ddulliau talu e.e. arian parod, sieciau, cardiau credyd, cardiau debyd, debyd uniongyrchol, archebion sefydlog.

Gall tystiolaeth ar gyfer 1.1 i 1.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod o holi.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (2.1) mae angen i'r ymgeisydd **esbonio**'r termau allweddol ar slip tâl, e.e. crynswth, net, didyniadau.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** didyniadau ar slip tâl e.e. Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio**'r termau allweddol ar fantolen banc e.e. balans, codiadau, debyd uniongyrchol, archeb banc, BAC.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 i 2.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod o holi.

Ar gyfer y maen prawf hwn (3.1) mae angen i'r ymgeisydd **gynllunio** a **chofnodi** incwm a gwariant, gan nodi unrhyw warged/diffyg. Gallai hyn fod ar bapur neu electronig. Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 fod yn gynllun incwm a gwariant (cyllideb) ac yn gofnod o incwm a gwariant gwirioneddol mewn cyfnod penodol (e.e. mis) gan nodi gwarged a diffyg.

Ar gyfer 3.2 rhaid i'r ymgeisydd **nodi** pam gall cronfa wrth gefn fod yn ddefnyddiol e.e. ar gyfer eitemau annisgwyl o wariant a biliau.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r ymgeisydd **adnabod** y problemau sy'n gallu digwydd os bydd gwariant yn fwy nag incwm e.e. gostyngiad mewn cynilion, rhent heb ei dalu, anallu i fenthyca neu dalu benthyciadau presennol.

Ar gyfer 3.4 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** manteision posibl cyllid personol yn effeithiol, e.e. cynilion ar gyfer gwyliau, diffyg dyled.

Gall tystiolaeth ar gyfer 3.2 i 3.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod o holi.

Ar gyfer maen prawf (4.1) mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** ffyrdd o leihau gwariant. e.e. rheoli ei g/chyllideb ei hun i leihau gwariant ar eitemau anangenrheidiol, prynu fesul llwyth neu'n ail law, manteisio ar gynigion arbennig a sêl, defnyddio freecycle neu wefannau tebyg. Gallai cynhyrchu incwm gynnwys gwerthu eitemau mewn sêl cist car, cymryd gwaith ychwanegol.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r ymgeisydd **restru** ffynonellau o gefnogaeth i broblemau dyled difrifol, e.e. Cyngor i Bawb, cyngor ar ddyledion, cynlluniau ad-dalu.

Ar gyfer 4.3 mae angen i'r ymgeisydd **ddiffinio** methdaliad.

Gall tystiolaeth ar gyfer 4.1 i 4.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod o holi.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (5.1) mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o fathau o gynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan fanciau a chymdeithasau adeiladu e.e. cyfrifon banc, morgeisi, yswiriant.

Ar gyfer 5.2 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** manteision ac anfanteision gwahanol fathau o gyfrifon e.e. llog a enillir ar gyfrifon adnau a chynilo, cosbau am dynnu arian yn gynnar o gyfrifon cynilo tymor hir.

Ar gyfer 5.3 rhaid i'r ymgeisydd **ddewis** cyfrif addas ar eu cyfer eu hunain neu i berson penodol a **rhoi rhesymau** dros eu dewis.

Ar gyfer 5.4 mae angen i'r ymgeisydd **amlinellu** rhai o'r risgiau sy'n glwm wrth gyfranddaliadau a mathau eraill o fuddsoddiadau e.e. costau gweinyddol, cyfraddau llog yn syrthio.

Gall tystiolaeth ar gyfer 5.1 i 5.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod o holi.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (6.1) mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** manteision cynilo e.e. manteisio ar ddisgowntiau, bargeinion arian parod, delio ag eitem fawr ac annisgwyl o wariant.

Ar gyfer 6.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** anfanteision cynilo e.e. llai o incwm gwario.

Ar gyfer 6.3 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o wobrau ariannol o wahanol fathau o gynilo e.e. tymor byr a hir, cyfraddau incwm.

Gall tystiolaeth ar gyfer 6.1 i 6.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod o holi.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (7.1) mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** manteision benthyca e.e. manteisio ar gynigion arbennig a phrynu eitemau mawr.

Ar gyfer 7.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** anfanteision benthyca. e.e. dyled, bod ar ei hôl hi wrth dalu, effeithiau cynnydd mewn cyfraddau llog.

Ar gyfer 7.3 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o gostau ariannol tymor benthyca tymor byr e.e. y cyfanswm i'w ad-dalu am fenthyca ar gardiau credyd, cytundeb benthyciad/credyd tymor byr i brynu teledu.

Ar gyfer 7.4 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o gostau ariannol benthyca tymor hir e.e. cyfraddau llog is, cyfnod ad-dalu hirach, morgais i brynu tŷ.

Gall tystiolaeth ar gyfer 7.1 i 7.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

# Uned 519 Delio â heriau

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | M/600/7796 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 2 |
| **ODDA:** | 17 |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i adnabod bod her yn gallu bod yn gadarnhaol yn ogystal â negyddol ac i adnabod sut mae e/hi'n adweithio i heriau. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546:<br>• **337** Mynediad 3 Delio â phroblemau mewn bywyd bob dydd<br>• **430** Lefel 1 Delio â phroblemau |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall gwahanol fathau o heriau |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1. rhestru gwahanol fathau o heriau<br>1.2 disgrifio cyfleoedd potensial sefyllfaoedd heriol<br>1.3 disgrifio bygythiadau potensial sefyllfaoedd heriol<br>1.4 disgrifio agweddau at her |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. deall sut i ddelio â heriau |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 disgrifio cryfderau personol (rhinweddau, sgiliau agweddau ac ymddygiad) y mae eu hangen i ddelio â heriau<br>2.2 adnabod ei g/allu ei hun i ymdopi<br>2.3 esbonio effeithiau posibl emosiynau ar eich gallu i ymdopi<br>2.4 adnabod arwyddion straen |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. ymateb yn gadarnhaol i heriau |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 disgrifio her<br>3.2 dangos ymateb cadarnhaol<br>3.3 dadansoddi ei dd/dull a'i g/weithgareddau<br>3.4 adolygu effeithiolrwydd eich camau<br>3.5 nodi beth mae e/hi wedi'i ddysgu o'r profiad hwn |

# Uned 519 Delio â heriau
Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (1.1) mae angen i'r ymgeisydd **restru** mathau o her. Gallai'r rhain fod yn gorfforol, meddyliol, neu waith neu bobl gysylltiedig.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** cyfleoedd potensial o sefyllfaoedd heriol e.e. datblygu sgiliau ymdopi, cynyddu ei g/chymhelliant.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** bygythiadau potensial sefyllfaoedd heriol e.e. emosiynau, straen.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** agweddau at her e.e. osgoi, derbyn.

Gall tystiolaeth ar gyfer 1.1 i 1.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd, yn gofnod o drafodaethau neu'n adroddiad aseswr.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (2.1) mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** cryfderau personol y mae eu hangen i ymdopi â heriau e.e. meddwl a sgiliau gwneud penderfyniadau.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** ei g/allu ei hun i ymdopi e.e. delio â chanlyniadau ei g/weithgareddau neu emosiynau ei hun.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** effeithiau posibl emosiynau ar y gallu i ymdopi e.e. ar wneud penderfyniad sydd ar y gweill; ysbrydoli meddwl creadigol

Ar gyfer 2.4 mae angen i'r ymgeisydd **adnabod** arwyddion o straen e.e. curiad calon uwch.

Ar gyfer 2.5 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** ffyrdd o ddelio â straen e.e. rheoli amser, gwella cydbwysedd gwaith-bywyd.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 i 2.5 fod yn ddatganiad ymgeisydd, yn gofnod o drafodaethau neu'n adroddiad aseswr.

Ar gyfer y maen prawf hwn (3.1) mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** her. Gall yr her sydd wedi'i disgrifio gael ei defnyddio ar gyfer y meini prawf eraill ar gyfer y canlyniad hwn. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddangos** ymateb cadarnhaol e.e. cyfaddawdu, cydweithredu. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad tyst neu'n arsylwad aseswr.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r ymgeisydd **ddadansoddi** ei d/ddull a'i g/weithgareddau ei hun e.e. cydweithredu, gwrthdaro. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 3.4 mae angen i'r ymgeisydd **adolygu** effeithiolrwydd ei weithredoedd ei hun. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod adolygu.

Ar gyfer 3.5 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** beth mae e/hi wedi'i ddysgu o'r profiad. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad ymgeisydd.

# Uned 520 Rheoli eich Hun

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | T/600/7797 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:** | 24 |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddeall pwysigrwydd dull o fyw cytbwys a gallu adnabod ffyrdd o'i g/wneud ei hun yn fwy effeithiol. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Dim |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall pwysigrwydd cydbwysedd bywyd/gwaith |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 nodi pam mae cydbwysedd gwaith/bywyd yn bwysig<br>1.2 rhestru'r rolau sydd gennych yn eich bywyd a goblygiadau amser y rolau hyn<br>1.3 rhestru'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y rolau hyn<br>1.4 cwblhau log amser dros gyfnod penodol a nodi unrhyw feysydd gofid |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. deall pwysigrwydd dull iach o fyw ar gyfer effeithiolrwydd personol |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 nodi pam mae cwsg yn bwysig<br>2.2 nodi pam mae ymarfer cyson yn bwysig<br>2.3 rhestru manteision bwyta'n iach<br>2.4 disgrifio effeithiau alcohol a chyffuriau ar berfformiad |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. deall sut i 'weithio'n glyfar' |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 rhestru rhwystrau mewnol ac allanol i weithio'n effeithiol<br>3.2 nodi'r gwahaniaeth rhwng tasgai brys a phwysig<br>3.3 nodi pryd a ble rydych chi'n gweithio orau |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>4. cynnal dadansoddiad o sgiliau hunanreoli |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>4.1 dadansoddi sgiliau cyfredol hunanreoli<br>4.2 adnabod ffyrdd o'ch gwneud eich hun yn fwy effeithiol<br>4.3 cynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer gwelliant personol |

# Uned 520 Rheoli eich Hun

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (1.1) mae angen i'r ymgeisydd **nodi** pam mae cydbwysedd bywyd/gwaith yn bwysig.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r ymgeisydd **restru'**r rolau sydd ganddo ef/hi yn ei fywyd a goblygiadau amser y rolau hyn. Gallai'r rolau gynnwys gofalwr, partner, cyflogai, gwirfoddolwr.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r ymgeisydd **restru**'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y rolau hyn. Gallai cefnogaeth gynnwys help gyda gofal plant gan deulu, ffrindiau neu ffynonellau eraill.

Gall tystiolaeth ar gyfer 1.1 i 1.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r ymgeisydd **gyflawni** log amser ar gyfer cyfnod penodol a nodi unrhyw feysydd pryder. Gallai cyfnod priodol fod yn ddiwrnod neu wythnos gan ddibynnu ar yr unigolyn a maes gofid.
Gall tystiolaeth ar gyfer 1.4 fod ar bapur neu'n log electronig

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (2.1) mae angen i'r ymgeisydd **nodi** pam mae cwsg yn bwysig.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** pam mae ymarfer yn bwysig. Ar gyfer 2.3 mae angen i'r ymgeisydd **restru** tair mantais bwyta'n iach.

Ar gyfer 2.4 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** effeithiau alcohol ac effeithiau cyffuriau ar berfformiad.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 i 2.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (3.1) mae angen i'r ymgeisydd **restru** rhwystrau mewnol ac allanol posibl i weithio effeithiol. Gallai rhwystrau mewnol gynnwys diffyg cymhelliad neu ddiffyg hyder. Gallai rhwystrau allanol gynnwys ymrwymiadau teulu, swm y gwaith, ymyriadau.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r ymgeisydd **nodi**'r gwahaniaeth rhwng tasgau brys a phwysig.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** pryd (e.e. yn gynnar yn y bore) a ble (e.e. yn y llyfrgell, wrth y bwrdd bwyd, yn y swyddfa) lle mae e/hi'n gweithio orau. Gallai'r ymgeisydd hefyd ystyried pam mae'r amgylchiadau hyn mor ffafriol; efallai ei bod yn well ganddo/ganddi rywle tawel neu weithio gyda sŵn fel cerddoriaeth neu bobl yn y cefndir.

Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 i 3.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (4.1) mae angen i'r ymgeisydd **ddadansoddi** sgiliau hunanreoli cyfredol i ddarganfod cryfderau a gwendidau.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r ymgeisydd **adnabod** ffyrdd o'i g/wneud ei hun yn fwy effeithiol. Gallai hyn gynnwys newidiadau i'r amgylchedd, cynllunio tasgau, ‘talpio' gwaith.

Gall tystiolaeth ar gyfer 4.1 a 4.2 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 4.3 mae angen i'r ymgeisydd **gynhyrchu** cynllun gweithredu ar gyfer gwella personol. Dylai tystiolaeth ar gyfer 4.3 fod yn gynllun gweithredu.

# Uned 521 Cyflwyniad i ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

| | |
|---|---|
| **RHAU:** T/600/7802 | |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:**26 | |
| **Nod:** | Nod yr uned yw cyflwyno'r dysgwr i ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. |
| **Asesiad:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** Dim | |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall arwyddocâd datblygiad cynaliadwy |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 diffinio datblygiad cynaliadwy<br>1.2 rhestru rhai o egwyddorion datblygiad cynaliadwy<br>1.3 disgrifio rhai bygythiadau i ddatblygiad cynaliadwy |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. deall arwyddocâd dinasyddiaeth fyd-eang |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 diffinio dinasyddiaeth fyd-eang<br>2.2 rhestru rhai o nodweddion allweddol dinasyddiaeth fyd-eang<br>2.3 dewis un o'r nodweddion hyn ac esbonio pam mae'n bwysig |

| Canlyniad Dysgu |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. deall y berthynas rhwng datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 rhoi enghreifftiau o sut mae datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn perthyn i'w gilydd |

| Canlyniad Dysgu |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>4. ymwybodol o gamau i hybu datblygiad cynaliadwy a/neu ddinasyddiaeth fyd-eang |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>4.1 disgrifio menter fyd-eang<br>4.2 disgrifio prosiect lleol |

| Canlyniad Dysgu |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>5. cynnal arolwg cynaliadwyedd |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>5.1 arolygu eu gweithle, cartref neu amgylchedd dysgu mewn perthynas â datblygiad cynaliadwy<br>5.2 rhestru meysydd sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy<br>5.3 rhestru meysydd sy'n bygwth datblygiad cynaliadwy<br>5.4 gwneud argymhellion priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn |

| Canlyniad Dysgu |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>6. gwybod sut i weithredu i hybu datblygiad cynaliadwy a/neu ddinasyddiaeth fyd-eang |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>6.1 disgrifio camau y gallai e/hi eu cymryd i hybu datblygiad cynaliadwy a/neu ddinasyddiaeth fyd-eang |

# Uned 521 Cyflwyniad i ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (1.1) mae angen i'r ymgeisydd **ddiffinio** datblygiad cynaliadwy. Gall hyn fod yn ddiffiniad cydnabyddedig neu yn eu geiriau eu hunain.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r ymgeisydd **restru** o leiaf dair o egwyddorion datblygiad cynaliadwy e.e. lleihau niwed i'r amgylchedd.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** o leiaf dri bygythiad i ddatblygiad cynaliadwy e.e. polisïau llywodraeth.

Gall tystiolaeth ar gyfer 1.1 i 1.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (2.1) mae angen i'r ymgeisydd **ddiffinio** dinasyddiaeth fyd-eang. Gall hyn fod yn ddiffiniad cydnabyddedig neu yn eu geiriau eu hunain.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **restru** o leiaf dair o nodweddion dinasyddiaeth fyd-eang.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r ymgeisydd **ddewis** un o'r nodweddion hyn ac esbonio pam mae hi'n bwysig.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 i 2.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer y maen prawf hwn (3.1) mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o sut mae datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn perthyn i'w gilydd. Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (4.1) mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** menter fyd-eang e.e. G20.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** prosiect lleol e.e. ailgylchu. Gall tystiolaeth ar gyfer 4.1 a 4.2 fod yn adroddiad neu'n gyflwyniad llafar gyda datganiad tyst a nodiadau ymgeisydd.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (5.1) mae angen i'r ymgeisydd **arolygu** ei weithle ei hun, ei gartref neu amgylchedd dysgu mewn perthynas â datblygiad cynaliadwy. Gall aseswr roi ffocws yr arolwg neu gall yr ymgeisydd ei ddewis.

Ar gyfer 5.2 mae angen i'r ymgeisydd **restru** meysydd sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy e.e. ailgylchu papur.

Ar gyfer 5.3 mae angen i'r ymgeisydd **restru** meysydd sy'n bygwth datblygiad cynaliadwy e.e. defnyddio gwrtaith cemegol.

Gall tystiolaeth ar gyfer 5.1 i 5.3 fod yn arolwg anodedig.

Ar gyfer 5.4 mae angen i'r ymgeisydd **wneud** argymhellion priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn e.e. cymryd poteli i'r banc poteli. Gallai'r argymhellion hyn fod yn welliannau tymor byr neu dymor hir a dylent ystyried cost a ffactorau cyfyngol eraill. Gall tystiolaeth ar gyfer 5.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Fel arall, gellid dod ynghyd â thystiolaeth ar gyfer 5.1 i 5.4 at ei gilydd mewn adroddiad.

Ar gyfer y maen prawf hwn (6.1) mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** camau y mae / y gallai e/hi eu cymryd i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a/neu ddinasyddiaeth fyd-eang. Gallai hyn fod yn weithred ymarferol yn y cartref (lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu) neu ardal leol (cymryd rhan mewn prosiect), codi ymwybyddiaeth ar gyfer prosiect, codi arian. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad ymgeisydd.

# Uned 522 Sgiliau gweithio tîm

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | K/600/7795 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:** | 20 |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddeall y rolau y gall pobl eu cymryd mewn timau a gallu gweithio gyda phobl eraill tuag at gyflawni amcanion a rennir. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546:<br>• **311** Gweithio fel rhan o dîm<br>• **411** Lefel 1 Gweithio fel rhan o dîm<br>• **426** Lefel 1 Cyfrannu at dîm |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall pam mae gwaith tîm effeithiol yn bwysig |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 diffinio gwaith tîm effeithiol<br>1.2 disgrifio manteision ac anfanteision gwaith tîm ar gyfer sefyllfa benodol |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. deall y rolau y gall pobl eu cymryd mewn sefyllfa gwaith tîm. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 rhoi enghreifftiau o rolau wedi'u neilltuo'n ffurfiol<br>2.2 rhoi enghreifftiau o rolau llai ffurfiol<br>2.3 disgrifio'r effaith gallai'r rolau hyn ei chael ar y ffordd mae tîm yn gweithio ac ar aelodau'r tîm |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. deall rôl gwrthdaro |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 rhestru ffactorau a allai gyfrannu at wrthdaro mewn tîm<br>3.2 esbonio sut gallai barnau sy'n gwrthdaro fod yn fantais<br>3.3 awgrymu ffyrdd o reoli a datrys gwrthdaro |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwr yn:<br>4. deall beth sydd angen ei wneud i gyflawni nod penodol |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>4.1 esbonio nod cyffredinol ac amcanion y tîm<br>4.2 adnabod eu cryfderau, sgiliau a'u profiadau eu hunain sy'n berthnasol i'r sefyllfa gwaith tîm<br>4.3 disgrifio ei rôl ei hun fel rhan o'r tîm |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwr yn:<br>5. gweithio gyda phobl eraill tuag at gyflawni amcanion wedi'u rhannu |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>5.1 cytuno ar gynllun gweithredu unigolion a gweithgareddau grŵp sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion.<br>5.2 egluro cynllun gweithredu os oes angen<br>5.3 adnabod i bwy i ofyn am help os oes angen arno/i<br>5.4 cynnal gweithgareddau unigolyn a grŵp fel y cytunwyd<br>5.5 cymell y tîm i gyflawni ei amcanion<br>5.6 darparu adborth mewn modd priodol a chadarnhaol<br>5.7 derbyn ac ymateb i adborth cadarnhaol |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwr yn:<br>6. adfyfyrio ar eu perfformiad eu hunain a'r tîm |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>6.1 adfyfyrio ar ei b/pherfformiad ei hun a pherfformiad y tîm<br>6.2 awgrymu ffyrdd o wella eu sgiliau gweithio tîm. |

# Uned 522 Sgiliau gweithio tîm
Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Disgwylir i'r dysgwr allu dewis a defnyddio gwybodaeth berthnasol, syniadau, sgiliau a gweithdrefnau i gwblhau tasgau wedi'u diffinio'n dda a mynd i'r afael â phroblemau uniongyrchol. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb am gwblhau tasgau a gweithdrefnau ac arfer annibyniaeth a barn yn amodol ar gyfeiriad neu arweiniad cyffredinol.

Mae'r dysgwr yn gallu diffinio gwaith tîm effeithiol a disgrifio manteision ac anfanteision gwaith tîm ar gyfer sefyllfa benodol. Mae e/hi'n dangos dealltwriaeth o rôl gwrthdaro ac yn awgrymu ffyrdd o reoli a datrys gwrthdaro. Mae'r dysgwr yn dangos gallu i weithio gyda phobl eraill i gyflawni amcanion, darparu adborth mewn ffordd ystyriol ac adeiladol; adfyfyrio ar ei b/pherfformiad ei hun a pherfformiad y tîm ac awgrymu ffyrdd o wellau sgiliau gweithio eu tîm eu hunain.

Mae *sefyllfa gwaith tîm* yn cynnwys tri neu ragor o bobl yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni amcanion a rennir.

Dylai'r gweithgaredd tîm fod yn gydweithredol ac yn bwrpasol a rhoi i bob ymgeisydd y cyfle i gwrdd â'r holl feini prawf. Fodd bynnag, efallai na fydd pob aelod o'r tîm yn gweithio tuag at yr uned hon. Er enghraifft, gallai sefyllfa'r gwaith tîm fod yn y gweithle.

Gall tiwtoriaid ddefnyddio amrywiaeth eang o adnoddau dysgu gan gynnwys fideos a siaradwyr allanol i ddarlunio timau mewn gweithgareddau gwaith a hamdden. Gallai chwarae rôl gael ei ddefnyddio i archwilio gwrthdaro a/neu alluogi dysgwyr i arfer darparu a derbyn adborth adeiladol. Gellir defnyddio gêmau a gweithgareddau sy'n datblygu sgiliau gweithio tîm i sicrhau bod y dysgu'n rhyngweithiol, yn hwyl ac yn apelio at amrywiaeth o arddulliau dysgu.

Dylai'r cyflwyno gydnabod amgylchiadau penodol dysgwyr a'u rhaglen ddysgu ehangach. Mae'r uned yn ei benthyg ei hun yn arbennig o dda i gael ei hintegreiddio ag agweddau eraill o raglen ddysgu ehangach y dysgwr.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (1.1) mae angen i'r ymgeisydd ddiffinio gwaith tîm effeithiol.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** manteision ac anfanteision gwaith tîm ar gyfer sefyllfa benodol. Gallai'r sefyllfa gael ei rhoi gan aseswr neu oruchwyliwr ac er ei bod yn debygol mai sefyllfa'r gwaith tîm yw hyn, yng nghanlyniadau 4, 5 a 6, gallai fod yn sefyllfa arall.

Gall tystiolaeth ar gyfer 1.1 ac 1.2 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (2.1) mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o rolau wedi'u neilltuo'n ffurfiol e.e. arweinydd tîm, goruchwyliwr, arolygydd, cynllunydd.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o rolau llai ffurfiol e.e. smaliwr, negodwr, cwblhawr.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio**'r effaith y gallai'r rolau hyn ei chael ar y ffordd mae tîm yn gweithio ac ar aelodau'r tîm. Efallai y bydd ymgeiswyr am adfyfyrio ar dimau y maen nhw wedi gweithio ynddyn nhw neu eu harsylwi.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 i 2.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (3.1) mae angen i'r ymgeisydd **restru** ffactorau a allai gyfrannu at wrthdaro mewn tîm e.e. barnau, agweddau, camddeall, profiadau blaenorol.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** sut gallai barnau sy'n gwrthdaro fod yn fantais e.e. darparu dehongliad gwahanol.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r ymgeisydd **awgrymu** ffyrdd o reoli a datrys gwrthdaro.

Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 i 3.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer maen prawf cyntaf (4.1) mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** nod cyffredinol y tîm. Gall nod y tîm gael ei benderfynu gan y tîm, e.e. codi cronfeydd ar gyfer elusen neu gall gal ei roi i'r tîm gan yr aseswr neu oruchwyliwr e.e. i gwblhau prosiect.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** ei g/chryfderau, sgiliau a'i b/phrofiadau ei hun sy'n berthnasol i'r sefyllfa gwaith tîm yma e.e. da gyda rhifau, profiad blaenorol o gyfrifydda.

Ar gyfer 4.3 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** ei rôl ei hun fel rhan o'r tîm yma, e.e. trysorydd.

Gall tystiolaeth ar gyfer 4.1 i 4.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer maen prawf cyntaf ( 5.1) mae angen i'r ymgeisydd **gytuno** ar gynllun gweithredu gweithredoedd unigol a grŵp sydd eu hangen i gyflawni amcanion. Gall tystiolaeth ar gyfer 5.1 fod yn gynllun gweithredu wedi'i lofnodi.

Ar gyfer 5.2 mae angen i'r ymgeisydd **egluro**'r cynllun gweithredu os oes angen. Dylai'r ymgeisydd allu nodi beth mae e neu hi am ei wneud.

Ar gyfer 5.3 mae angen i'r ymgeisydd **adnabod** i bwy y gallai ofyn am help e.e. goruchwyliwr, aseswr.

Gall tystiolaeth ar gyfer 5.2 a 5.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 5.4 mae angen i'r ymgeisydd **gynnal** gweithgareddau unigol a grŵp fel y cytunwyd yn 5.1. Mae angen i'r ymgeisydd ddilyn canllawiau iechyd a diogelwch a roddwyd gan aseswr neu oruchwyliwr a gwisgo dillad priodol.

Ar gyfer 5.5 mae angen i'r ymgeisydd **gymell** y tîm i gyflawni ei amcanion. Gallai hyn gynnwys cwblhau ei d/thasgau ei hun gydag agwedd gadarnhaol, gan gynnig help, cefnogaeth ac anogaeth.

Ar gyfer 5.6 mae angen i'r ymgeisydd **ddarparu adborth** mewn ffordd briodol a chadarnhaol. Gall hyn fod yn ystod neu yn dilyn y gweithgaredd gwaith tîm.

Ar gyfer 5.7 mae angen i'r ymgeisydd **dderbyn** ac **ymateb** i adborth cadarnhaol. Dylai'r ymgeisydd gydnabod yr adborth heb ddigio, gan ofyn am eglurhad neu enghreifftiau os oes angen. Gallai e/hi ystyried y pwynt(iau) a wnaed cyn cymryd/cynllunio unrhyw weithred bellach e.e. newid ymddygiad.

Dylai tystiolaeth ar gyfer 5.4 i 5.7 fod yn ddatganiad aseswr neu'n ddatganiad tyst.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (6.1) mae angen i'r ymgeisydd **adfyfyrio** ar ei b/pherfformiad ei hun a pherfformiad y tîm. Dylai'r adolygiad hwn fynd y tu hwnt i'r gweithgareddau y mae'r grŵp wedi'u cwblhau a pha mor llwyddiannus oedd y gweithgareddau a ffocysu ar y ffordd y mae'r grŵp wedi gweithio gyda'i gilydd. Mae angen i'r ymgeisydd nodi sut mae e/hi wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion gyda'i gilydd. Dylai'r ffocws fod ar ryngweithiad yr ymgeisydd gyda'r grŵp ac nid yn unig ar yr amcanion a gyflawnwyd. Bydd e/hi'n adnabod beth aeth yn dda a beth nad aeth gystal wrth weithio gydag eraill.

Ar gyfer 6.2 mae angen i'r ymgeisydd **awgrymu** ffyrdd o wella ei sgiliau gwaith tîm ei hun. Dylai'r ffocws fod ar wella rhyngweithiad yr ymgeisydd gydag eraill ac fel sgìl trosglwyddadwy ac nid ar ba mor llwyddiannus y cafodd y gweithgaredd ei gwblhau.

Gall tystiolaeth ar gyfer 6.1 a 6.2 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod adolygu.

# Uned 523 Gwerthfawrogi cwsmeriaid

| | |
|---|---|
| **RHAU:** | A/600/7798 |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 2 |
| **ODDA:** | 16 |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddeall pwysigrwydd cwsmeriaid i sefydliadau. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Dim |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. deall pwysigrwydd cwsmeriaid i sefydliadau |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 esbonio pam mae cwsmeriaid yn bwysig i sefydliadau<br>1.2 gwahaniaethu rhwng cwsmeriaid mewnol ac allanol |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. deall pwysigrwydd hyder cwsmeriaid a'u cadw. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 disgrifio sut i greu hyder cwsmeriaid<br>2.2 amlinellu'r manteision i sefydliad o gael enw da cadarnhaol<br>2.3 rhestru ffyrdd y gall sefydliad adeiladu enw da<br>2.4 rhoi enghreifftiau o sut gall enw da sefydliad gael ei niweidio |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. gwybod sut i ryngweithio'n effeithiol gyda chwsmeriaid. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 rhestru rhai agweddau cadarnhaol a negyddol cyflwyniad personol sy'n gallu effeithio ar ganfyddiadau cwsmeriaid o sefydliad. |

| | |
|---|---|
| 3.2 | esbonio pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, sgiliau wrth ddelio â chwsmeriaid |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>4. deall sut i ddatblygu perthnasoedd cynhyrchiol gyda chwsmeriaid |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>4.1 disgrifio'r manteision i sefydliad o gael polisi gwasanaeth cwsmeriaid<br>4.2 disgrifio ffyrdd o ymateb yn gadarnhaol i anghenion cwsmeriaid, disgwyliadau a chwynion<br>4.3 rhoi enghreifftiau pryd gall fod angen addasu ymddygiad i gwrdd ag anghenion penodol cwsmeriaid<br>4.4 rhoi enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gall fod angen cefnogaeth wrth ddelio â chwsmeriaid |

# Uned 523 Gwerthfawrogi cwsmeriaid
Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Gall *cwsmeriaid* fod yn gwsmeriaid mewnol neu allanol. Does dim angen i'r dysgwr weithio gyda chwsmeriaid i gyflawni'r uned hon.

Gall tiwtoriaid ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau dysgu gan gynnwys fideos a chwarae rôl. Gellid gwahodd siaradwyr allanol (e.e. cyflogwyr neu hyfforddwyr galwedigaethol) i roi golwg ar wasanaeth i gwsmeriaid.

Dylai'r cyflwyno gydnabod amgylchiadau penodol dysgwyr a'u rhaglen ddysgu ehangach. Mae'r uned yn ei benthyg ei hun yn arbennig o dda i gael ei hintegreiddio ag agweddau eraill o raglen ehangach y dysgwr.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (1.1) mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** pwysigrwydd cwsmeriaid e.e. incwm, elw, sefydliad llwyddiannus.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r ymgeisydd **wahaniaethu** rhwng cwsmeriaid mewnol ac allanol.

Gall tystiolaeth ar gyfer 1.1 ac 1.2 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (2.1) mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** sut i greu hyder cwsmeriaid e.e. bod yn gwrtais, cynorthwyol, gwybodus.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **amlinellu** manteision cael enw da cadarnhaol e.e. cadw cwsmeriaid sy'n bod a denu cwsmeriaid newydd.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r ymgeisydd **restru** ffyrdd y gall sefydliad adeiladu enw da e.e. ansawdd, dibynadwyedd.

Ar gyfer 2.4 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o sut gall enw da sefydliad gael ei niweidio.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 i 2.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer y maen prawf hwn (3.1) mae angen i'r ymgeisydd **restru** rhai agweddau cadarnhaol a rhai agweddau negyddol cyflwyniad personol e.e. glendid, gwisg.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** pwysigrwydd sgiliau cyfathrebu effeithiol werth ddelio gyda chwsmeriaid.

Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 ac 3.2 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer y maen prawf cyntaf (4.1) mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** manteision cael polisi gwasanaeth i gwsmeriaid e.e. cysondeb, tryloywder.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** ffyrdd o ymateb yn gadarnhaol i gwsmeriaid e.e. cynorthwyol, amyneddgar.

Ar gyfer 4.3 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** pryd y gall fod angen addasu ymddygiad i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid e.e. rhwystrau iaith.

Ar gyfer 4.4 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o sefyllfaoedd lle gall fod angen cefnogaeth e.e. diffyg gwybodaeth am y cynnyrch, ymddygiad ymosodol gan y cwsmer.

Gall tystiolaeth ar gyfer 4.1 i 4.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd, yn adroddiad aseswr neu'n gofnod o holi.

# Uned 524 Deall gwrthdaro yn y gweithle

| | |
|---|---|
| **RHAU:** L/506/8630 | |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 2 |
| **ODDA:**12 | |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr gyfle i archwilio a deall gwrthdaro yn y gweithle a sut mae hyn yn gallu cael ei atal |
| **Asesiad:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546:<br>• **449** Lefel 1 Deall gwrthdaro yn y gweithle |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. Deall achos ac effaith gwrthdaro yn y gweithle. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 esbonio achosion cyffredin gwrthdaro rhwng unigolion<br>1.2 esbonio achosion cyffredin gwrthdaro rhwng grwpiau/timau<br>1.3 disgrifio effeithiau gwrthdaro ar unigolion<br>1.4 disgrifio **effeithiau** gwrthdaro ar grŵp/tîm. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **1.3 ac 1.4 mae effeithiau'n cynnwys:**<br>cymhelliad, ymddygiad, cynhyrchedd, salwch ac absenoldeb. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. Adnabod mathau o ymddygiad sy'n annerbyniol mewn sefyllfa waith. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 disgrifio beth yw ymddygiad derbyniol yn y gweithle<br>2.2 disgrifio mathau o ymddygiad sy'n annerbyniol mewn sefyllfa waith. |

| **Canlyniad Dysgu** |
| --- |
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. Deall sut mae modd rhwystro gwrthdaro mewn sefyllfa waith. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 esbonio **dulliau** y gellir eu defnyddio mewn sefyllfa waith i atal gwrthdaro<br>3.2 disgrifio **cyfrifoldebau** cyflogwyr gan gyfeirio at wrthdaro yn y gweithle. |

| **Cwmpas** |
| --- |
| 3.1 **mae dulliau'n cynnwys:** ffurfiol ac anffurfiol<br>**3.2 Cyfrifoldebau:** ymyrryd yn gyflym, delio â'r mater, cyfathrebu gweithdrefnau a pholisïau, cymodi. |

# Uned 524 Deall gwrthdaro yn y gweithle

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr esbonio o leiaf dair enghraifft o achosion cyffredin gwrthdaro rhwng unigolion, gallai'r rhain gynnwys: cyfathrebu gwael, rheoli gwael, triniaeth annheg, rolau swydd aneglur, hyfforddi annigonol, cyfathrebiadau gwael, amgylchedd gwaith gwael, diffyg cyfle cyfartal, bwlio ac aflonyddu. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **esbonio** o leiaf dair enghraifft o achosion cyffredin gwrthdaro rhwng grwpiau/timau, gallai'r rhain gynnwys: cystadleuaeth rhwng cydweithwyr, anghytundebau am nodau neu werthoedd tîm a rennir, chwerwder nad yw un tîm yn tynnu'i bwysau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** effeithiau gwrthdaro ar unigolion. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** effeithiau gwrthdaro ar grwpiau/timau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** beth yw ymddygiad derbyniol yn y gweithle, gallai'r rhain gynnwys: cod ymddygiad, cyfathrebu geiriol, gwisg. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** mathau ymddygiad sy'n annerbyniol mewn sefyllfa waith, gallai'r rhain gynnwys: sarhau rhywun ar lafar, bwlio, aflonyddu, ynysu rhywun yn y gwaith.

Ar gyfer meini prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **esbonio** sut gellid rhwystro gwrthdaro mewn sefyllfa waith yn ffurfiol ac yn anffurfiol, e.e. yn ffurfiol yn dilyn gweithdrefn gwyno'r cwmni, yn anffurfiol gallai fod trwy drafodaethau gyda'r partïon o dan sylw. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer meini prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** cyfrifoldebau cyflogwyr gan gyfeirio at wrthdaro yn y gweithle, gan roi o leiaf un enghraifft am bob un o amrywiaeth o osodiadau.  Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

# Uned 525 Ymwybyddiaeth o Gyffuriau

| | |
|---|---|
| **RHAU:** A/506/8879 | |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:**30 | |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o effeithiau niweidiol camddefnyddio cyffuriau a materion iechyd cysylltiedig. |
| **Asesu:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546:<br>• **336** Mynediad 3 Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol<br>• **444** Lefel 1 Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o gyffuriau |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. Gwybod y gwahaniaeth rhwng cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 disgrifio beth yw cyffur<br>1.2 rhoi enghreifftiau o gyffuriau **cyfreithlon**<br>1.3 rhoi enghreifftiau o gyffuriau **anghyfreithlon**. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **1.2 cyfreithlon:** ddim yn torri'r gyfraith.<br>**1.3 anghyfreithlon:** torri'r gyfraith. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| 2. Deall dosbarthiad cyfredol cyffuriau a'r gyfraith. |
| **Meini prawf asesu** |
| 2.1 disgrifio'r gwahaniaethau rhwng dosbarthiadau cyffuriau<br>2.2 adnabod cyffur o bob dosbarthiad. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **2.1 dosbarthiad cyffuriau -** O dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, caiff cyffuriau anghyfreithlon eu rhoi mewn un o 3 dosbarth - A, B neu C. |

| Canlyniad Dysgu |
|---|
| 3. Deall effeithiau camddefnyddio cyffuriau. |
| **Meini prawf asesu** |
| 3.1 disgrifio effeithio **camddefnyddio** cyffuriau. |

| Cwmpas |
|---|
| **3.1 camddefnyddio** -gorddefnydd a defnyddio at y pwrpas anghywir |

| Canlyniad Dysgu |
|---|
| 4. Deall effaith camddefnyddio cyffuriau. |
| **Meini prawf asesu** |
| 4.1 disgrifio effaith camddefnyddio cyffuriau. |

| Cwmpas |
|---|
| **4.1 effaith** - arno/i'i hun ac ar bobl eraill. |

| Canlyniad Dysgu |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>5. Gwybod ble i gael help, cyngor a gwybodaeth i ymladd camddefnyddio cyffuriau. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>5.1 nodi ble gallwch chi gael gwybodaeth am driniaeth a chefnogaeth i helpu i oresgyn camddefnyddio cyffuriau. |

# Uned 525 Ymwybyddiaeth o Gyffuriau

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** beth yw cyffur e.e. meddyginiaeth neu sylwedd arall sy'n cael effaith seicolegol pan gaiff ei lyncu neu ei roi i'r corff mewn ffordd arall. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o gyffuriau cyfreithlon e.e. paracetamol, aspirin, gwrthfioteg, baco ac alcohol (os o'r oed cywir). Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o gyffuriau anghyfreithlon, e.e. canabis, heroin, mariwana, amffetaminau, cocên, ecstasi. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio**'r gwahaniaethau rhwng dosbarthiadau cyffuriau e.e. eu bod wedi'u seilio'n fras ar y niwed maen nhw'n ei achosi naill ai i'r defnyddiwr neu i gymdeithas pan maen nhw'n cael eu camddefnyddio. Mae'r dosbarth y caiff cyffur ei roi iddo'n effeithio ar fwyafswm y gosb am drosedd yn cynnwys cyffur. Er enghraifft, mae cyffuriau dosbarth A yn denu'r gosb fwyaf difrifol gan yr ystyrir eu bod yn debygol o achosi'r niwed mwyaf difrifol. Mae cyffuriau a reolir o dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau yn anghyfreithlon i'w meddiannu, eu cynhyrchu, eu rhoi i ffwrdd neu eu gwerthu. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn, yn dabl.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **adnabod** cyffur o bob dosbarthiad. e.e. A = heroin , B = canabis, C = catamin. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o effeithiau camddefnyddio cyffuriau e.e. bydd effeithiau corfforol yn dibynnu ar y cyffuriau sy'n cael eu cymryd ond gallent gynnwys pendro a chwydu, panig a pharanoia, colli cydlyniant, clefyd ysgyfaint a chanser yr ysgyfaint, problemau anadlu, pwysedd gwaed uchel ac anffrwythlondeb, rhithweledigaeth, torri rhydwelïau gwaed, insomnia, iselder, colli pwysau a diffyg maeth, analluedd mewn dynion. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** effaith camddefnyddio cyffuriau e.e. ar faterion iechyd yr hunan, colli cymhelliad, perfformiad gwan yn y gwaith neu'r ysgol. Pobl eraill - ffrindiau, y teulu ehangach, cymdeithas - tebygolrwydd uwch y gallai aelodau'r teulu ddatblygu problemau cyffuriau, cost ariannol, gwrthdaro a thor perthynas. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 5.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** ble gallwch chi gael gwybodaeth am driniaeth a chefnogaeth i helpu i oresgyn camddefnyddio cyffuriau e.e. Llinell Gymorth Cyffuriau Cenedlaethol, y GIG, Narcotics Anonymous, Addaction a gwasanaethau cefnogi lleol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

# Uned 526 Ymwybyddiaeth o alcohol

| | |
|---|---|
| **RHAU:** T/506/8878 | |
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credydau:** | 3 |
| **ODDA:**30 | |
| **Nod:** | Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o effeithiau niweidiol camddefnyddio alcohol a'r materion iechyd cysylltiedig. |
| **Asesiad:** | Portffolio'r dysgwr |
| **Gwahardd:** | Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546:<br>• **336** Mynediad 3 Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol<br>• **442** Lefel 1 Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o alcohol ar gyfer dilyniant |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>1. Gwybod y gwahaniaeth rhwng diodydd ysgafn a diodydd |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>1.1 disgrifio'r gwahaniaeth rhwng diodydd ysgafn ac alcoholig. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>2. Deall **canllawiau** cyfredol am alcohol. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>2.1 rhoi enghreifftiau o **ddeddfau cyfredol** ar alcohol<br>2.2 nodi'r **unedau a argymhellir** i ddynion<br>2.3 nodi'r **unedau a argymhellir** i fenywod<br>2.4 nodi cryfder uned **amrywiaeth** o ddiodydd alcoholig |

| **Cwmpas** |
|---|
| **Mae canllawiau'n cynnwys:** rheol gyffredinol, darn o gyngor.<br>**2.1 deddfau cyfredol** perthnasol i'w hardal<br>**2.2 & 2.3** unedau a argymhellir **–** terfynau diogel a awgrymir am gymryd alcohol yn wythnosol.<br>**2.4 ystod -** cwrw, gwin, gwirodydd ac alcopops. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>3. Deall effeithiau alcohol. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>3.1 rhoi enghreifftiau o effeithiau alcohol ar y corff dynol<br>3.2 disgrifio arwyddion gwenwyno trwy alcohol<br>3.3 disgrifio effeithiau **seicolegol** alcohol<br>3.2 disgrifio effeithiau yfed **anghyfrifol**<br>3.5 diffinio yfed cymdeithasol. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **Seicolegol** – cyflwr meddyliol ac emosiynol person.<br>**3.2 Anghyfrifol** - sesiynau goryfed, yfed a gyrru, ymddygiad gwrth-gymdeithasol. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>4. Deall effaith camddefnyddio alcohol. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>4.1 disgrifio **effaith camddefnyddio** alcohol. |

| **Cwmpas** |
|---|
| **4.1 effaith** - arno/i'i hun ac ar bobl eraill<br>**4.1 camddefnyddio** -gorddefnydd a defnyddio ar gyfer y pwrpas anghywir. |

| **Canlyniad Dysgu** |
|---|
| Bydd y dysgwr yn:<br>5. Gwybod ble i gael help, cyngor a gwybodaeth i wrthsefyll camddefnyddio alcohol. |
| **Meini prawf asesu** |
| Mae'r dysgwr yn gallu:<br>5.1 nodi ble gallwch chi gael cefnogaeth, cyngor a thriniaeth i helpu i oresgyn camddefnyddio alcohol. |

# Uned 526 Ymwybyddiaeth o alcohol

Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **disgrifio**'r gwahaniaeth rhwng diodydd ysgafn ac alcoholig e.e. diod ysgafn - un nad yw'n cynnwys unrhyw alcohol fel lemonêd, coke, llaeth; diod alcoholig - un sy'n cynnwys alcohol fel gwin, chwisgi, fodca. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o ddeddfau cyfredol (perthnasol i'w hardal) ar alcohol e.e. Deddf Trwyddedu 2003, Deddf Traffig Heolydd 1988. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **nodi'**r unedau a argymhellir i ddynion e.e. hyd at 21 o unedau yr wythnos. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **nodi'**r unedau a argymhellir i fenywod e.e. hyd at 14 o unedau yr wythnos. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.4 rhaid i'r dysgwr **nodi** cryfder uned amrywiaeth o ddiodydd alcoholig e.e. cwrw 2 uned. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, neu yn gofnod aseswr, yn ddelweddau gyda thestun, yn dabl.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o effeithiau alcohol ar y corff dynol e.e. ar yr ymennydd fel newidiadau ysbryd ac ymddygiad, ar y galon fel curiad calon afreolaidd, strôc, pwysedd gwaed uchel, ar yr afu fel sirosis, hepatitis alcoholig, ar y pancreas fel pancreatitis, ar eich system imiwn ac yn fwy agored i haint, mewn cynnydd cyffredinol o risg canser fel y geg, oesoffagws, llwnc, afu, brest, analluedd mewn dynion, niwed i'r ffetws heb ei eni mewn menywod beichiog, niwed i'r ymennydd o ganlyniad i ddiffyg B2. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** arwyddion gwenwyno trwy alcohol e.e. dryswch, colli cydlynedd, chwydu, ffitiau, anadlu afreolaidd neu araf, croen yn glasu neu'n welw, tymheredd corff isel, syrthni (ymwybodol ond ddim yn ymateb).Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **disgrifio** effeithiau seicolegol alcohol e.e. colli ymataliad, cynnydd mewn ymosodedd a thrais, cynnydd mewn pryder, hwyliau'n pendilio, iselder, ymddygiad rhywiol heb ymatal colli diddordeb mewn rhyw, cof ac ymddygiad/ cydlyniad synhwyraidd-weithredol gwallus . Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 3.4 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** effeithiau yfed anghyfrifol e.e. sesiynau goryfed, yfed a gyrru, ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 3.5 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** yfed cymdeithasol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** effaith camddefnyddio alcohol e.e. teulu'n torri ac ysgariad, cam-drin yn y cartref, diweithdra, digartrefedd, problemau ariannol, anaf, trais, ymddygiad gwrth-gymdeithasol, rhyw anniogel, colli eiddo personol, amser i ffwrdd o'r gwaith/coleg heb ei gynllunio. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 5.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** o ble gallwch chi gael cefnogaeth, cyngor a thriniaeth i helpu i oresgyn camddefnyddio alcohol e.e. Drinkline, Addaction, Alcoholics Anonymous, Al-Anon, Pryder Alcohol, Dewisiadau GIG, ADFAM, Cymdeithas Genedlaethol Plant Alcoholigion, Alcohol Focus Scotland, Talk to Frank, Samariaid, neu wasanaethau cefnogaeth lleol eraill. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

# Atodiad 1 Unedau Lefel 2 ar gael yn 5546-01-02-03-04-05-06

Mae hon yn rhestr o'r holl unedau Lefel 2 sydd ar gael yng nghymwysterau Sgiliau Cyflogadwyedd (Cymru a Lloegr) 5546-01-02-03-04-05-06:

| Uned | RHAU | Teitl | Gwerth credyd au | ODD A |
|---|---|---|---|---|
| 501 | A/600/6196 | Cynllunio gyrfa a gwneud ceisiadau | 3 | 20 |
| 502 | T/600/6195 | Sgiliau effeithiol, rhinweddau ac agweddau ar gyfer dysgu | 3 | 22 |
| 503 | D/506/2721 | Paratoi ar gyfer cyfweliad | 2 | 13 |
| 504 | R/506/2666 | Cyfathrebu gyda phobl eraill yn y gweithle | 2 | 11 |
| 505 | D/600/7793 | Prosiect yr ymgeisydd ar gyfer dysgu a gweithio | 3 | 20 |
| 506 | J/506/2714 | Ymgeisio am swydd | 2 | 13 |
| 507 | Y/506/2717 | Gwella sgiliau a thechnegau ymarferol | 3 | 19 |
| 508 | D/506/2718 | Cyflwyniad i ddilyniant gyrfa | 1 | 7 |
| 509 | A/506/2791 | Cyflwyniad i ddatblygiad proffesiynol parhaus | 1 | 10 |
| 510 | A/506/2712 | Cyflwyniad i arweinyddiaeth | 1 | 7 |
| 511 | F/506/2713 | Cyflwyniad i fanteision hyfforddi | 1 | 7 |
| 512 | H/506/2719 | Cyflwyniad i fanteision mentora | 1 | 7 |
| 513 | Y/506/2720 | Cyflwyniad i egwyddorion sefydlu busnes | 3 | 18 |
| 514 | R/506/2716 | Byw'n iach | 2 | 11 |
| 515 | L/506/2715 | Archwilio cydraddoldeb ac | 2 | 12 |
| 516 | T/506/2790 | Defnyddio offer a chyfarpar | 1 | 10 |
| 517 | F/506/2663 | Rheoli amser yn y gweithle | 1 | 8 |
| 518 | R/600/7791 | Rheoli cyllid personol | 3 | 26 |
| 519 | M/600/7796 | Delio â heriau | 2 | 17 |
| 520 | T/600/7797 | Rheoli eich Hun | 3 | 26 |

| Uned | RHAU | Teitl | Gwerth credydau | ODDA |
|---|---|---|---|---|
| 521 | T/600/7802 | Cyflwyniad i ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang | 3 | 26 |
| 522 | K/600/7795 | Sgiliau gweithio tîm | 3 | 20 |
| 523 | A/600/7798 | Gwerthfawrogi cwsmeriaid | 2 | 16 |
| 524 | L/506/8630 | Deall gwrthdaro yn y gweithle | 1 | 6 |
| 525 | D/506/8244 | Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o gyffuriau | 3 | 30 |
| 526 | H/506/8244 | Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o alcohol i'r unigolyn | 3 | 30 |

# Atodiad 2 Unedau Lefel 2 ar gael yn 5546-21-22-23-24-25

Mae hon yn rhestr o'r holl unedau Lefel 2 sydd ar gael yng nghymwysterau Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) 5546-21, 22, 23, 24, 25:

| Uned | RHAU | Teitl | Gwerth credydau | ODDA |
|---|---|---|---|---|
| 501 | A/600/6196 | Cynllunio gyrfa a gwneud ceisiadau | 3 | 20 |
| 503 | D/506/2721 | Paratoi ar gyfer cyfweliad | 2 | 13 |
| 504 | R/506/2666 | Cyfathrebu gyda phobl eraill yn y gweithle | 2 | 11 |
| 505 | D/600/7793 | Prosiect yr ymgeisydd ar gyfer dysgu a gweithio | 3 | 20 |
| 506 | J/506/2714 | Ymgeisio am swydd | 2 | 13 |
| 508 | D/506/2718 | Cyflwyniad i ddilyniant gyrfa | 1 | 7 |
| 509 | A/506/2791 | Cyflwyniad i ddatblygiad proffesiynol parhaus | 1 | 10 |
| 510 | A/506/2712 | Cyflwyniad i arweinyddiaeth | 1 | 7 |
| 511 | F/506/2713 | Cyflwyniad i fanteision hyfforddi | 1 | 7 |
| 512 | H/506/2719 | Cyflwyniad i fanteision mentora | 1 | 7 |
| 513 | Y/506/2720 | Cyflwyniad i egwyddorion sefydlu busnes | 3 | 18 |
| 516 | T/506/2790 | Defnyddio offer a chyfarpar | 1 | 10 |
| 517 | F/506/2663 | Rheoli amser yn y gweithle | 1 | 8 |

# Atodiad 3 Unedau Lefel 2 ar gael yn 5546-31-32-33-34-35

Mae hon yn rhestr o'r holl unedau Lefel 2 sydd ar gael yng nghymwysterau sgiliau Personol a Chymdeithasol 5546-31-32-33-34-35:

| Uned | RHAU | Teitl | Gwerth credyd au | ODD A |
|---|---|---|---|---|
| 502 | T/600/6195 | Sgiliau effeithiol, rhinweddau ac agweddau ar gyfer dysgu | 3 | 22 |
| 507 | Y/506/2717 | Gwella sgiliau a thechnegau ymarferol | 3 | 19 |
| 514 | R/506/2716 | Byw'n iach | 2 | 11 |
| 515 | L/506/2715 | Archwilio cydraddoldeb ac | 2 | 12 |
| 516 | T/506/2790 | Defnyddio offer a chyfarpar | 1 | 10 |
| 517 | F/506/2663 | Rheoli amser yn y gweithle | 1 | 8 |
| 518 | R/600/7791 | Rheoli cyllid personol | 3 | 26 |
| 519 | M/600/7796 | Delio â heriau | 2 | 17 |
| 520 | T/600/7797 | Rheoli eich Hun | 3 | 24 |
| 521 | T/600/7802 | Cyflwyniad i ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang | 3 | 26 |



# Atodiad 4 Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol

Mae'r dogfennau canlynol yn cynnwys gwybodaeth hanfodol i ganolfannau sy'n cyflwyno cymwysterau City & Guilds. Guilds. Dylid cyfeirio atynt ar y cyd â'r llawlyfr hwn. I lawrlwytho'r dogfennau ac i ddod o hyd i ddogfennau defnyddiol eraill, ewch i **hafan Canolfannau a Darparwyr Hyfforddiant** ar **www.cityandguilds.com**.

***Llawlyfr Canolfan - Cefnogi Rhagoriaeth Cwsmeriaid*** yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y prosesau y mae'n rhaid eu dilyn a'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i ganolfan gyflawni statws 'canolfan gymeradwy', neu i gynnig cymhwyster penodol, yn ogystal â diweddariadau ac enghreifftiau arfer da ar gyfer materion polisi ac asesu City & Guilds. Yn benodol, mae'r ddogfen yn cynnwys adrannau ar:

- Y ganolfan a'r broses gymeradwyo cymhwyster
- Asesu, sicrhau ansawdd mewnol a rolau arholiad yn y ganolfan
- Cofrestru ac ardystio ymgeiswyr
- Diffyg cydymffurfio
- Cwynion ac apeliadau
- Cyfleoedd Cyfartal
- Diogelu data
- Systemau rheoli
- Cynnal cofnodion
- Asesu
- Sicrhau ansawdd mewnol
- Sicrhau ansawdd allanol.

***Mae ein Gofynion Sicrhau Ansawdd*** yn cwmpasu holl ofynion perthnasol dogfennau rheoleiddio allweddol fel:

- Meini Prawf Corff Dyfarnu SQA
- Cod Ymarfer NVQ

ac yn gosod allan y meini prawf y dylai canolfannau gadw atyn nhw cyn ac ar ôl cael cymeradwyaeth canolfan

Mae ***Mynediad i Asesu a Chymwysterau*** yn rhoi manylion llawn y trefniadau y gellir eu gwneud i hwyluso mynediad i asesiadau a chymwysterau ar gyfer ymgeiswyr sy'n gymwys ar gyfer addasiadau wrth asesu.

Mae adran **tudalen hafan** gwefan City & Guilds hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar bethau fel:

- **Walled Garden:** sut i gofrestru ac ardystio ymgeiswyr ar-lein
- **Digwyddiadau**: dyddiadau a gwybodaeth am ddigwyddiadau diweddaraf y Ganolfan
- **Asesu ar-lein**: sut i gofrestru am e-asesiadau.

Mae **Canllaw Canolfannau - Cyflwyno Cymwysterau Rhyngwladol** yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y prosesau y mae'n rhaid eu dilyn a'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i ganolfan gael statws 'canolfan gymeradwy' neu gynnig cymhwyster penodol. Yn benodol, mae'r ddogfen yn cynnwys adrannau ar:

- Proses gymeradwy’r ganolfan a chymwysterau a ffurflenni
- Rolau asesu, gwirio ac arholi yn y ganolfan
- Cofrestru ac ardystio ymgeiswyr
- Diffyg cydymffurfio
- Cwynion ac apeliadau
- Cyfleoedd Cyfartal
- Diogelu data
- Cwestiynau cyffredin.

# Cysylltiadau defnyddiol

| | |
|---|---|
| **Dysgwyr y D.U.**<br>**Gwybodaeth gyffredinol ar y cymhwyster** | **Ffôn: +44 (0)844 543 0033**<br>**E-bost: learnersupport@cityandguilds.com** |
| **Dysgwyr rhyngwladol**<br>Gwybodaeth gyffredinol am y cymhwyster | Ffôn: +44 (0)844 543 0033<br>Ffacs: +44 (0)20 7294 2413<br>E-bost: **intcg@cityandguilds.com** |
| **Canolfannau**<br>Ceisiadau Arholiad, Tystysgrifau, Cofrestriadau / ymrestru, Anfonebau, Deunyddiau arholiad hwyr neu ar goll, Adroddiadau rhestri enwau, Canlyniadau | Ffôn: +44 (0)844 543 0000<br>F: +44 (0)20 7294 2413<br>E-bost: **centresupport@cityandguilds.com** |
| **Cymwysterau pwnc unigol**<br>Ceisiadau arholiad, Canlyniadau, Ardystio, Deunyddiau arholiad hwyr neu ar goll, Papurau arholiad anghywir, Cais am Ffurflenni | Ffôn: +44 (0)844 543 0000<br>F: +44 (0)20 7294 2413<br>F: +44 (0)20 7294 2404 (ffurflenni BB)<br>E-bost: **singlesubjects@cityandguilds.com** |
| **Dyfarniadau rhyngwladol**<br>Canlyniadau, Ceisiadau, Ymrestru, Anfonebau, papurau arholiadau ar goll | Ffôn: +44 (0)844 543 0000<br>F: +44 (0)20 7294 2413<br>E-bost: **intops@cityandguilds.com** |
| **Walled Garden**<br>Ailgyhoeddi cyfrinair neu enw defnyddiwr, Problemau technegol, Ceisiadau, Canlyniadau, e-asesu, Llywio, | Ffôn: +44 (0)844 543 0000<br>F: +44 (0)20 7294 2413<br>E-bost: **walledgarden@cityandguilds.com** |
| **Cyflogwr**<br>Datrysiadau cyflogwyr, Mapio, Achredu, Sgiliau datblygu, Ymgynghoriaeth | Ffôn: +44 (0)121 503 8993<br>E-bost: **business@cityandguilds.com** |
| **Cyhoeddiadau**<br>Llyfrau log, Dogfennau'r ganolfan, Ffurflenni, Llenyddiaeth am ddim | Ffôn: +44 (0)844 543 0000<br>F: +44 (0)20 7294 2413 |

**Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir ar adeg cyhoeddi. Fodd bynnag, caiff cynhyrchion a gwasanaethau City & Guilds eu datblygu a'u gwella'n barhaus a chedwir yr hawl i newid cynhyrchion a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn cyfrifoldeb am golled neu niwed sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.**

**Os oes gennych gŵyn neu unrhyw awgrym i wella unrhyw un o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu, e-bostiwch: feedbackandcomplaints@cityandguilds.com**

**Am City & Guilds**

Fel prif sefydliad addysg alwedigaethol y DU mae City & Guilds yn arwain y chwyldro talent drwy ysbrydoli pobl i ddatgloi eu potensial a datblygu eu sgiliau. Rydym yn cynnig dros 500 o gymwysterau ar draws 28 o ddiwydiannau drwy 8500 o ganolfannau ledled y byd ac yn dyfarnu tua dwy filiwn o dystysgrifau bob blwyddyn. Caiff City & Guilds ei gydnabod a'i barchu gan gyflogwyr ar draws y byd fel arwydd o ansawdd a hyfforddiant eithriadol.

**Grŵp City & Guilds**

Mae'r Grŵp City & Guilds yn gweithredu o dair canolfan o bwys: Llundain (yn gwasanaethu Ewrop, y Caribî a chyfandiroedd America), Johannesburg (yn gwasanaethu Affrica), a Singapore (yn gwasanaethu Asia, Awstralia a Seland Newydd). Mae'r Grŵp hefyd yn cynnwys y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (cymwysterau rheoli ac arweinyddiaeth), Trwydded i Ymarfer City & Guilds (cymwysterau tir), y Ganolfan Datblygu Sgiliau (mae CSD yn gweithio i wella polisi ac ymarfer addysg alwedigaethol a hyfforddiant ledled y byd) a Chynorthwy-ydd Dysgu (e-bortffolio ar-lein).

**Hawlfraint**

Mae cynnwys y ddogfen hon, oni bai y nodir fel arall, yn hawlfraint © City & Guilds of London Institute ac ni ellir ei gopïo, ei atgynhyrchu na'i ddosbarthu heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw. Fodd bynnag, caiff canolfannau cymeradwy City & Guilds ac ymgeiswyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau City & Guilds lungopïo'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim a/neu gynnwys fersiwn PDF ohoni ar fewnrwydi canolfannau ar yr amodau canlynol:

- caiff staff canolfannau gopïo'r deunydd yn unig ar gyfer dibenion addysgu ymgeiswyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster City & Guilds, neu at ddibenion gweinyddol mewnol
- caiff ymgeiswyr gopïo'r deunydd yn unig at eu dibenion eu hunain wrth weithio tuag at gymhwyster City & Guilds

Mae'r *Amodau Copïo Safonol* (gw. gwefan City & Guilds hefyd mewn grym.

Noder: Nid yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn hawlfraint © City & Guilds of London Institute. Gwiriwch yr amodau copïo gyda'r Cyngor Sgiliau Sector perthnasol.

Cyhoeddwyd gan City & Guilds, elusen gofrestredig a sefydlwyd i hyrwyddo addysg a hyfforddiant

**City & Guilds**
**1 Giltspur Street**
**Llundain EC1A 9DD**
**Ffôn +44 (0)844 543 0000**
**Ffacs +44 (0)20 7294 2413**
**www.cityandguilds.com**